

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 542 • Mai 2023 • 50c

DARLITH GOFFA
DAFYDD ORWIG 2023

'BREUDDWYD BARD-CHWARELWR O DDYFFRYN OGWEN'

gan

Dr Gwen Angharad Gruffudd

Nos Lun, 5 Mehefin am 7.30
yn Llyfrgell Bethesda

Mynediad am ddim

Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd gyda
chydweithrediad Partneriaeth Ogwen

Rygbi Bethesda



Yn ddiweddar mwynhaodd criw rygbi ieuentid dan 9, 10 ac 11 Bethesda drip a hanner i'r brifddinas. Cawsant benwythnos i'w gofio yn gwylio gornest 'Dydd y Farn' rhwng y Sgarlets a'r Dreigiau, a diau fod sawl un yn gobeithio dychwelyd i'r stadiwm i chwarae pan fyddan nhw'n hŷn.



Yn y rhifyn yma



12

Creigiau
Geirwon - troi
hanes ddoe yn
stori newydd

**CARNIFAL
BETHESDA**

MAI | 20 | 2023

PARÊD YN CYCHWYN O CLWB PÊL
DROED BETHESDA AM 1YP

STONDINNAU, CYSTADLEUAETHAU AC
ADLONIAINT AR GAEAU CLWB RYGBI BETHESDA

Llais Ogwan

Rhif 542
Mai 2023

Panel Golygyddol

Ieuan Wyn

(Ffôn 600297)

ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts

(Ffôn 07815 093955)

l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes

(Ffôn 600853)

nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

(Ffôn 602440)

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

(Ffôn 07402 373444)

trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams

(Ffôn 601167)

waltermenai@yahoo.co.uk

Rhodri Llŷr Evans

(Ffôn 07713 865452)

Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans

(Ffôn 07588 636259)

owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd

(Ffôn 07867 536102)

carwynnian@hotmail.com

Rhys Llwyd

(Ffôn 01248 601606) rml42@live.co.uk

Catrin Wager

(Ffôn 07366 418318)

catrinwager@yahoo.co.uk

Swyddogion

CADEIRYDD

Dewi A Morgan, Park Villa,

Lôn Newydd Coetmor,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3DT (Ffôn 602440)

dewimorgan@live.co.uk

TREFNYDD HYSBYSEBION

Neville Hughes, 14 Pant,

Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)

nev_hughes@btinternet.com

YSGRIFENNYDD

Gareth Llwyd, Talgarnedd,

3 Sgwâr Buddug, Bethesda

LL57 3AH (Ffôn 601415)

garethllwyd197@btinternet.com

TRYSORYDD:

Paul Rowlinson, Crud yr Awel,

Lôn Newydd, Coetmor,

Bethesda LL57 3DT

(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)

PaulJRowlinson@outlook.com

Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3NN (Ffôn 600184)

post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Lowri Roberts.

Y golygydd ym mis **Mehefin** fydd

Carwyn Meredydd,

4 Rhes Gordon, Bethesda,

Gwynedd, LL57 3NR.

07867 536102

carwynnian@hotmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn,**

27 Mai os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu

Nos Iau, 15 Mehefin,

yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

DALIER SYLW: NID OES GWARANT
Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD
YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD
CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

CLWB CYFEILLION

Gwobrau Mai

£30.00 (53) Rheinallt Puw, Ffordd Pant,
Bethesda.

£20.00 (111) Gwen Davies, Tanysgafell
Isaf, Bethesda.

£10.00 (91) Sandra Howell, Ffordd
Ffrydlas, Bethesda.

£5.00 (151) Lester Bath, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa
Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru,
Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi
o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r
canlynol:

Gareth Llwyd – 601415

Neville Hughes – 600853

Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £22

Ewrop – £30

Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,

Gwynedd LL57 3NN

post@llaisogwan.com

01248 600184

Dyddiadur y Dyffryn



Mai

20 Carnifal Bethesda. Y diwrnod mawr.

21 Oedfa Arbennig i werthfawrogi
Cymaifa. Carmel Llanllechid am 5.00.

23 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

30 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

Mehefin

03 Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen.
Caeau Rygbi Bethesda.

05 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid.
2.30 – 4.00.

05 Darlith Goffa Dafydd Orwig. Llyfrgell
Bethesda am 7.30.

07 Gwibdaith Cymdeithas Jerusalem i Ynys
Môn.

10 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.

9.30 – 1.00.

12 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem.
10.30 – 12.00.

13 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

15 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan.
Cefnfaes am 6.45.

16 Cawl a Chân. Clwb Rygbi Bethesda.

24 Roc y Ddôl. Clwb Rygbi Bethesda.
11yb – 11yh.

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru



Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?

Cysylltwch â **Neville Hughes**
(Ffôn 600853)

nev_hughes@btinternet.com

Rhoddion i'r Llais

£14.50 Noreen Jones, Adwy'r Nant,
Bethesda.

£4.50 Margaret Jones, 16 Pen y Graig,
Bethesda.

£5.00 Di-enw, Bethesda.

Diolch yn fawr

Diolch

Dymuna Trevor, Sian, Llion, Rhys a
Wendy ddiolch o galon am bob arwydd
o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar
achlysur marwolaeth Bobby (Barbar)
brawd Trevor yn Adelaide, Awstralia.
Bydd hiraeth ar ei ôl.



post@llaisogwan.com

Dafydd Beech – Rheolwr Cenedlaethol Adran Addysg Gymunedol y Groes Goch Brydeinig

Mae bron i 20 mlynedd ers i mi ddechrau gweithio i'r Groes Goch, ac 'rwyf wedi cael profiadau arbennig iawn dros y blynyddoedd.

Rwyf wedi addysgu a gweithio gyda miloedd o bobl ar draws Cymru a'r DU, yn ogystal â gwledydd eraill ar draws y byd. Mae'n debyg mai Antigua, yn y Caribi yw'r lle pellaf i mi weithio!

Ond fel rheol, byddaf yn gweithio o'm cartref yn Rachub, gan gysylltu â staff ar zoom yn ddyddiol. Rwy'n gyfrifol am gynllunio strategaethau addysgol, a sicrhau bod pob aelod o'n tîm cenedlaethol yn cyflawni eu nod o ddarparu gweithdai dyngarol cynhwysfawr i gymunedau ymhob cornel o'r DU.

Ein cenhadaeth o fewn ein tîm yw i ddarparu addysg dyngarol sy'n annog cymunedau caredig a chynhwysol. Ein nod yw arfogi unigolion gyda'r gallu i atal neu osgoi adfyd, paratoi ar ei gyfer, ymateb iddo, ac adfer ar ei ôl.

Mae gennym dîm o staff a gwirfoddolwyr ymroddedig ar draws y DU sy'n cynllunio ac yn datblygu cynhyrchion a gwybodaeth i helpu i adeiladu gwytnwch, a dysgu sgiliau cymorth cyntaf. Gallwch lawrlwytho ein 'ap' yn rhad ac am ddim, a gellir ei ddefnyddio mewn gweithdai wyneb i wyneb.

Gall ein casgliad o weithdai addysg fod yn gymorth i feithrin hyder, sgiliau a gwybodaeth mewn ffordd sy'n addas i chi neu'ch grŵp. Mae'r dull dysgu yn syml, wedi'i gynllunio i feithrin gwytnwch, empathi a dealltwriaeth o eraill a'r sgiliau sydd eu hangen mewn argyfwng.



'Rydym yn cynnig gweithdai wyneb yn wyneb ar hyn o bryd ar y themau a ganlyn:

- Cymorth cyntaf (pobl ifanc ac oedolion)
- Empathi a mudo (ieuenctid)
- Ymdopi â heriau (ieuenctid)
- Addasu a gwella o adfyd (oedolyn)
- Mynd i'r afael ag unigrwydd (oedolyn)

Rwy'n teimlo'n ffodus iawn o gael gweithio gyda mudiad sy'n gwneud gwahaniaeth yn lleol, ac ar draws y byd. Mae'n swydd a ddaw â chryn bleser a boddhad i mi.

I gael mwy o wybodaeth, archebu gweithdy neu i wirfoddoli gyda ni ewch i'n gwefan www.redcross.org.uk/get-help/learn-with-us neu anfonwch e-bost ataf Dbeech@redcross.org.uk

ANNWYL DDARLLENYDD,
Wythnos Cynnig Cymraeg –
15-19 Mai 2023
Hoffwn dynnu eich sylw at gynllun o'r enw y 'Cynnig Cymraeg', sy'n cydnabod ymdrechion cyrff nad ydynt yn dod o dan Safonau'r Gymraeg i greu cynlluniau datblygu'r Gymraeg. Cyrff sector breifat, trydydd sector ac elusennau yw'r rhain yn bennaf. Mae'n gyfle iddynt ddangos eu bod yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn barod i'w defnyddio.

Caiff wythnos y 'Cynnig Cymraeg' ei chynnal rhwng 15-19 Mai a bydd sylw ar y cyfryngau i'r cyrff sydd wedi derbyn ein cydnabyddiaeth. Maent yn cynnwys Boots, NSPCC, Lidl ac RSPB Cymru.

Mae'r sefydliadau yma yn awyddus i bobl ddefnyddio eu gwasanaethau Cymraeg, felly dyma dynnu eich sylw atynt a'ch annog i fanteisio arnynt. Gellir gweld mwy am y cynllun ar ein gwefan – www.comisiynyddygydraeg.cymru – a byddwn yn gwerthfawrogi eich cymorth i ledu'r gair!

Diolch yn fawr,
Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

Barddoniaeth Beddau Bangor a Phentir

Yn dilyn cyhoeddi cyfrol ddiddorol iawn a oedd yn cofnodi “Llên Gwerin Bangor a'r Cyffiniau” llynedd, mae awdur o Fangor newydd gyhoeddi cyfrol bwysig arall, sef casgliad o holl farddoniaeth cerrig beddau a chofebau Bangor a Phentir. Mae “Barddoniaeth Beddau Bangor a Phentir” gan Howard Huws yn cynnwys gweithiau amrywiaeth eang o feirdd lleol ac eraill, adnabyddus a dienw, gwybodaeth, yn dyddio o'r 17^{eg} ganrif i'r dydd hwn, yn union fel y maent ar y garreg. Efo'r cerddi ceir swmp mawr o wybodaeth am y rhai a gofiwyd, a'r beirdd eu hunain. Dangosir

pa mor boblogaidd oedd gweithiau rhai o'r beirdd hyn, ac ar ba gerrig y maen nhw i'w gweld.

“Mae barddoniaeth”, meddai Howard, “yn ganolog i'n diwylliant ni. Felly mae ein mynwentydd yn drysorfeydd o gerddi coffadwriaethol, a phob claddfa â rhywbeth i ddifyrru'r rhai sy'n ymhyfydu yng ngherdd dafod. Gwaraid iawn yw sylwi bod y diwylliant nid yn unig yn ein cyfoethogi yn ystod ein bywydau, ond bod hyd yn oed ein hymadawiad yn achlysur cyfrannu rhagor at y gynhyrfaeth lenyddol tra bo carreg i'w gweld a llygaid i'w darllen.”

Gwnaeth y diweddar John Elwyn Hughes waith canmoladwy yn cofnodi englynion mynwent Pentir ym 1979, ac y mae'r gyfrol hon yn ymhelaethu ar, yn

diweddarar ac yn cywiro'r cofnod hwnnw. Mae'n cynnwys gweithiau beirdd lleol fel John R. Jones (“Ogwenydd”), John Pritchard (“Gaerwenydd”), Sam Jones (Dob), “Eos Mai”, Hugh Hughes (“Tegai”), a'r Prifardd Ieuan Wyn; a cheir ynddi gerddi i enwogion lleol fel Robert Roberts, arweinydd streic 1874.

Dyma gyfrol bwysig arall sy'n ffrwyth gwaith ymchwil a chofnodi manwl gan Howard ac sy'n sicrhaf fod o ddiddordeb i ddarllenwyr y Llais. Dymunwn bob llwyddiant i Howard gyda'r gyfrol ddiweddaraf hon ganddo.

Pris y gyfrol yw £10, ac mae ar gael yn eich siop lyfrau leol neu gan yr awdur yn cyfarchiad@yahoo.co.uk. Mwynhewch y darllen!

Gareth Llwyd

Nabod llais

Mae plant yn deud y pethau mwyaf annisgwyl ar brydiau. Gwaetha'r modd, does dim posibil i'r bychan gofio'i nain gan nad oedd ond pymtheng mis oed pan fu hi farw. Ond neithiwr ar ganol stori amser gwely mi ofynnodd mwyaf sydyn, 'Pwy sy'n cofio llais Nain?' Trwy lun a stori y mae o'n ei nabod hi: mae'n ymwybodol ohoni a hithau rywsut yn rhan anweledig o'i fywyd bach. Ond mae'n amlwg iddo sylweddoli bod ei llais yn ddieithr. O gofio'i oed, mae hynny'n naturiol ddigon. Ond daw cyfle'n fuan gobeithio i ddangos iddo bwt neu ddau o fideo y clywir ei llais arnyn nhw.

Mae'n rhwydd iawn i lais fynd yn ddieithr. Gallwn ninnau deimlo nad ydym yn cofio lleisiau. Ond nid anghofio a wnawn ni fel y cyfryw ond cael trafferth i'w disgrifio. Tybed nad cofio lleisiau fyddwn ni prun bynnag, ond eu nabod? Gallwn boeni ar brydiau a theimlo'n euog am nad ydym ninnau'n medru dwyn i gof leisiau anwyliaid. Ond pe byddem yn clywed y lleisiau hynny eto, mi fyddem yn eu nabod ar unwaith.

Llais sy'n medru bod yn ddieithr i gynifer o bobl heddiw ydi llais Duw. Ond nid heddiw'n unig: dyna fu'r stori ym mhob oes. Clustiau byddar sydd gan bawb wrth natur, heb unrhyw ymwybyddiaeth o'r hyn sydd gan Dduw i'w ddeud. Ac eto mae Duw'n siarad â ni ac yn galw arnom. Trwy ei gread; trwy ei Gyfraith; trwy'r Beibl ac yn fwyaf arbennig trwy ei Fab Iesu Grist mae Duw'n cyhoeddi ei gariad atom ac yn galw arnom i droi at Grist mewn ffydd. Ond yn aml iawn, anwybyddu'r neges a gwrthod yr alwad a wnaiff pobl. Ac aros yn fyddar a wnân nhw heb i Dduw eu deffro i nabod ei lais. Aros yn fyddar wnawn ninnau heb i Dduw ein galluogi i glywed a nabod ei lais.

Hyfryd lais Efengyl hedd
sydd yn galw pawb i'r wled;
mae gwahoddiad llawn at Grist,
oes, i'r tlawd newynog, trist;
pob cyflawnder ynddo cewch;
dewch â chroeso, dlodion, dewch.

Glywsoch chi'r llais hwnnw? Ydych chi'n nabod llais Duw, llais Iesu Grist, llais yr Efengyl? Mae arnom ni a'n plant a phlant ein plant angen ei glywed. Ystyriwn o ddifrif neges yr Efengyl. Ceisiwn gymorth Duw i'w deall ac i ymateb iddi. Ac o'i gael ac o nabod llais yr Arglwydd, gweddiwn y daw eraill hefyd i'w nabod. Un peth a wn, beth bynnag a wna'r bychan o lais ei nain, ei dyhead hi ar ei gyfer yw iddo fo a'i genhedlaeth ddod yn fuan iawn i nabod llais sicr y Duw Byw sy'n cynnig iddo fo ac i bawb ohonom fywyd a gobaith yn a thrwy'r Arglwydd Iesu Grist.

OGWEN TERRACE, BETHESDA

UN RHES,
DAU DDEG
DAU O DAI

Ar y 18fed oedd tyrfa fawr wedi ymgasglu ger llaw; ac fel yr oedd yn myned trwyddi, rhwystrowyd ef, a chafodd ei daro yn ei ben. Ar derfyn y gwasanaeth yr oedd yno dyrfa o'r tu allan i'r capel, a gosgorddwyd ef gartref gan yr heddgeidwad.

Mewn atebiad i Mr George dywedodd y tyst, cyn y streic presennol ei fod yn aelod o bwyllgor y chwarel, ac iddo fod yn gweithio yn Neheudir Cymru.

Mr J. Jones, Ogwen Terrace, Bethesda, diacon o'r eglwys Annibynnol, a dystiodd fod tyrfa fawr wedi ymgasglu



RHAN 8
(Parhad i 3 Ogwen Terrace)

Ar ôl marwolaeth William Griffith yn 1884, mae'n bosibl mai dyn o'r enw **Hugh Davies** oedd yn byw yn 3 Ogwen Terrace, Bethesda, gan mai ei enw ef sydd yn ymddangos fel pen teulu yng nghyfrifiad 1891. Roedd Hugh Davies yn 39 oed ac yn sengl, yn enedigol o Gilgerrant, plwyf Llandygái, ac yn fasnachwr esgidiau. 'Roedd morwyn yn byw yn y tŷ hefyd, sef Margaret Williams, yn enedigol o Langwyllog. Roedd hi'n 67 oed ac yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg. 'Roedd yno ymwelydd yn aros ar noson y cyfrifiad, sef bachgen 6 oed o'r enw Herbert Geraint Williams, yn enedigol o Hooton, Cheshire, ac 'roedd ef hefyd yn gallu siarad y ddwy iaith. Nid oes mwy o wybodaeth am Hugh Davies, ond 'roedd wedi gadael 3 Ogwen Terrace erbyn cyfrifiad 1901.

Llyfrwerthwr oedd yn byw yn 3 Ogwen Terrace unwaith eto yn 1901, gŵr o'r enw **John Jones**, a anwyd yn 1837 yn Ninbych. 'Roedd ei wraig, Lydia, hithau wedi ei geni yn 1837, a hynny yn Llanfyllin. 'Roedd nith i John Jones o'r enw Hannah Eliza Jones hefyd yn byw yn y tŷ. 'Roedd hi yn 18 oed, a nodir mai cynorthwyo yn y siop yr oedd hi. 'Roedd yno forwyn hefyd o'r enw Hannah Thomas, yn 22 oed, ac yn enedigol o Lanllechid.

'Roedd John Jones yn ddiagon yng nghapel Bethesda, ac 'roedd yn byw mewn amser cythryblus iawn yn hanes Bethesda, sef Streic Fawr y Penrhyn 1900-03. Cawn adroddiad yn ymddangos yn *Baner ac Amserau Cymru*, Chwefror 4, 1903, t.11 yn adrodd am Anghydwlediad Chwarel y Penrhyn, lle 'roedd John Jones yn ymddangos fel tyst.

'*BANGOR LLYS YR YNADON – Anghydwlediad Chwarel y Penrhyn. Dydd Mawrth, yn y llys hwn, ger bron Mr Harry Clegg, ac ynadon eraill, Dygodd yr heddgeidwad gyhuddiad yn erbyn Evan Carey Jones, Henry Williams, William Jones, Harry Edwards, ac Elias Williams, dynion ieuaidd oedd yn byw yn Bethesda, o droseddu y gyfraith sirol, yr hon oedd yn ymaddoliad yn ystod y gwasanaeth.*

Erluniad gan Mr S. R. Dew. Cynrychioliodd y diffynnyddion gan Mr. W. George a Mr D. G. Davies.

Tystiai chwarelwyr, o'r enw Richard Roberts, yr hwn oedd yn byw yn Braichmelyn, iddo, ryw bythefnos neu dair wythnos yn ôl, ddychwelyd at ei waith yn Chwarel y Penrhyn.

o'r tu allan i'r capel y noson ddywededig, ac iddo ofyn iddynt fynd i ffwrdd. Gwaeddodd un o'r dyrfa, 'Os bydd i chwi droi y bradwr allan bydd i ni fynd i ffwrdd.'

Dadleuai Mr George ddi-euogrwydd ar ran y diffynnyddion oedd efe yn eu cynrychioli. Wrth feirniadu y dystiolaeth dywedai i Richard Roberts ddywedyd iddo gael ei rwystro gan fechgyn tua 13eg mlwydd oed, ac nad oedd yn gallu tystio ddarfon i'r diffynnyddion ei flino. Yr achos o'r dorfy tu allan ydoedd eu bod yn disgwyl Mabon i bregethu yn y capel y noson honno.

Mr D. G. Davies, ar ran Carey Jones, a ddadleuai ei fod yn ddieuog. Y cadeirydd a ddywedodd nad oedd mwyafrif yr ynadon unfryd fod yr achos hwn yn dyfod o dan y gyfraith. Yr oedd yr ynadon, modd bynnag, yn unfryd wrth ddatgan eu barn ei fod yn resyn mawr fod yr anghydwlediad hwn oedd yn Bethesda yn cael ei gario i'r cwestiwn o rododi presenoldeb mewn eglwysydd neu gapelydd. Yn gymaint nad oedd y fainc yn unfryd byddai i'r achos gael ei daflu allan'.

Bu W. J. Parry mewn achos llys ag Arglwydd Penrhyn. Canlyniad yr achos oedd i W. J. Parry golli ac 'roedd yn rhaid iddo dalu iawndal o oddeutu tair i bedair mil o bunnoedd i Arglwydd Penrhyn. Penodwyd pwyllgor i godi arian i dalu'r gost yma, a lleihau'r byrddwn ar W. J. Parry, sef John Jones 3 Ogwen Terrace Bethesda (Cadeirydd), Y Parch. W. W. Lloyd, Brynteg, Bethesda (Is-Gadeirydd), E. R. Jones, Bethesda B. School, Bethesda (Ysgrifennydd Ariannol), Hugh Hughes, 30 Braichmelyn, Bethesda (Trysorydd). Nodir yn yr adroddiad ei bod yn bosibl anfon tanysgrifiadau i'r Trysorydd neu'r Ysgrifennydd, neu i'r Ariandai canlynol – National Provincial Bank a'r Metropolitan Bank, Bethesda.

'Roedd John Jones yn ŵr gweddwr erbyn cyfrifiad 1911, ac yn dal i fyw yn 3 Ogwen Terrace. Bu ei wraig, Lydia, farw Hydref 21^{ain} 1904 yn 70 mlwydd oed, ac fe'i claddwyd ym mynwent gyhoeddus Coetmor. Ei nith, Hannah Eliza Jones o Langollen oedd yn cadw tŷ iddo, ac 'roedd morwyn o'r enw Janet Jones o Lanllyfni yno hefyd.

(i'w barhau) Y mis nesaf: rhif 4 Rhes Ogwen.

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk
(01248 355336)

Cydymdeimlo

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mrs Beryl Griffith yn 93 mlwydd oed. Yn wreiddiol o Fangor, ymgartrefodd yn Castell wedi priodi ag Owain, neu Owie Castell fel 'roedd yn cael ei adnabod gan bawb. Cydymdeimlwn â'r meibion a'r teulu. Bu'r angladd yn gyhoeddus yn Eglwys Sant Deiniol, Llanddeiniolen a rhoddwyd hi i orffwys ym mynwent yr Eglwys. Derbyniwyd rhoddion tuag at Dementia Actif Gwynedd. Bu Beryl yn aelod ffyddlon o gangen Merched y Wawr Rhiwlas a hefyd Clwb Rhiwen, ac yn aml byddai hi a'r ddiweddar Frances Hoyle yn cerdded i'r Neuadd os oedd y tywydd yn ffafriol.

Rhys Meirion

Dyma ei sylwadau ar y cyngerdd

a gawsom yn y neuadd: "Wel sôn am groeso naturiol yn neuadd pentref Rhiwlas neithiwr. 'Roedd yn bleser rhannu llwyfan gyda Hogia'r Bonc, Môn Heli, a Dilwyn Morgan. Diolch i Elwyn am drefnu'r noson, a diolch i eraill yn y cefndir. Diolch heyd i Menna Rhys am gyfeilio. Diwylliant Cymraeg ar ei orau!"

Atgofion am Goroni'r Frenhines Elizabeth

Cawsom barti yn y neuadd, cael mwg tegan yno hefyd a'i gario adref yn hynod o ofalus. Cawsom y Testament yn yr ysgol, ond y digwyddiad gorau oedd cael mynd mewn bws i Plaza Bangor i weld y cyfan mewn lliw. Dyna fy atgofion i am goroni'r Frenhines. Tybed beth fydd atgofion plant Rhiwlas eleni?

Brysiwch wella

Anfonwn ein cofion at Mrs Myra Jones, Bron y Waun, sydd wedi dychwelyd i Ysbyty Gwynedd. Gobeithio y cawn eich gweld yn ôl gartref yn fuan. Dymunwn yn dda i eraill sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.



Y Gog

Yn anaml bellach y byddaf yn clywed y gog yn Waun, ond mae'n ffyddlon yn Bronydd a Cae Mawr, ac eleni 'roedd i'w chlywed yn Bronydd ar Ebrill 18 ac yn Cae Mawr ddau ddiwrnod yn ddiweddarach.

CLWB RYGBI
BETHESDA

CAWLA
CHÂN

Yng nghwmni
CÔR Y PENRHYN
HOGIA'R BONC
Ac UNAWDWYR
Arweinydd y noson:
NEVILLE HUGHES
NOS WENER,
MEHEFIN 16eg
7.30.p.m.
Tocynnau: £10
Yr elw tuag at Gronfa
Leol Dyffryn Ogwen
Eisteddfod Llŷn,
Eifionydd ac Arfon 2023

Y Cinio Mawr

Mae Cymunedau'r Eden Project yng Nghymru, yn gwahodd darllenwyr eich papur bro i gymryd rhan yn Y Cinio Mawr!

Mae'r Cinio Mawr yn cael ei gynnal bob Mehefin, fel rhan o 'Mis y Gymuned'. Mae'n esgus da i bawb ddod at ei gilydd er mwyn dod i adnabod eich cymodgion yn well, cymdeithasu a dathlu eich cymuned chi.

Y llynedd daeth bron i 700,000 o bobl at ei gilydd yma yng Nghymru i gymryd rhan yn Y Cinio Mawr! Mae'n syml! Gallwch drefnu paned gyda'ch cymydog, picnic yn y parc, barbeciw yn yr ardd, parti ar y stryd neu mewn neuadd leol...beth bynnag sydd ore i chi a does dim rhaid gwario!

Pryd? Mae penwythnos swyddogol Y Cinio Mawr eleni ar y 3-4 o Fehefin, ond gallwch drefnu eich Cinio Mawr unrhyw bryd ym Mehefin.

Am syniadau, rysetiau a mwy ewch i www.yciniomawr.com i archebu pecyn digidol a dwyieithog am ddim. Cofiwch gofrestru eich digwyddiad ar ein map ar y wefan hefyd, er mwyn inni gadw llygad ar y datblygiadau cyffrous ar hyd a lled Cymru!

Cofiwch rannu eich cynlluniau a'ch lluniau gyda ni!
#YCINIOMAWR

Y CINIO MAWR MEHEFIN 2023

Dewch â'ch cymdogion at ei gilydd i ddathlu eich cymuned.

Am fanylion llawn
ac i archebu
pecyn dwyieithog
AM DDIM ewch i
YCINIOMAWR.COM

#YCINIOMAWR

Dilynwch Llais Ogwan ar
www.llaisogwan.com

Eglwys Sant Tegai, Llandygai

Pen-blwydd Hapus

Anfonwn ddymuniadau da at Pauline Edwards a oedd yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn ym mis Ebrill, heb anghofio Hazel Jones ac Avril Williams, a oedd yn rhannu'r un dyddiad pen-blwydd.

Taith Gerdded staff Penrhyn

Mae Rhys Mwyn, yr hanesydd, o dan nawdd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghastell Penrhyn, eisoes wedi tywys 4 ymweliad â'r pentref a'r eglwys. Ar Fai 18fed bydd cyfle i staff a gwirfoddolwyr y castell ddilyn y daith er mwyn codi ymwybyddiaeth o hanes cyffrous yr eglwys sydd yn dyddio o'r Canol Oesoedd. Wrth gwrs bydd sylw yn cael ei roi i'r fynwent, sydd yn hynod ddiddorol gyda'i chysylltiadau nid yn unig â theulu, rheolwyr a gweithwyr stad y Penrhyn oedd yn drigolion yn y pentref, ond hefyd sydd â channoedd o feddau o wahanol gyfnodau, yn cynnwys esgobion Bangor, offeiriad, prifathrawon y pentref, haneswyr a beirdd lleol.

Croeso i bawb

Cofiwch, mae'r eglwys ar agor i bawb yn ddyddiol o ganol bore

tan hwyr y prynhawn fel rhan o'r cynllun cenedlaethol "Eglwysi Agored". Mae Raymond a Pauline Edwards o'r Hen Dŷ Ysgol yn datgloi yr eglwys bob bore, a diolchwn iddynt am eu hymroddiad. Er mwyn i chi gael braslun o'r gorffennol, gallwch ddarganfod hanes yr eglwys ar bosteri a labelau yn yr adeilad.

Cynlluniau Byr Amser

Na phoener, 'rydym yn dal i weithio yn ddiwyd i sicrhau'r dyfodol! Mae gwaith peintio a thrwsio yn mynd ymlaen ar y giatiau hardd i adwy'r eglwys ac i ddrws y clochdy fel rhan o'n rhaglen atgyweiro. Cyflogwyd peintiwr arbenigol i wneud y gwaith a ohirwyd yn ystod y cyfnod clo. Mae sawl peth ym mynwent yr eglwys angen sylw yn dilyn stormydd y gaeaf. Ddiwedd Mai bydd Sion Roberts, ein garddwr proffesiynol, yn ail-ddechrau torri gwair i roi cyfle i flodau gwyllt y gwanwyn ddarfod. Ar y funud, mae'r clychau'r gog a gyfeirir atynt yn y gerdd enwog gan R. Williams Parry yn brydferth iawn ym mynwent yr eglwys, ac yn dilyn y briallu a'r cennin pedr. Bydd Sion yn torri'r gwair 4 neu 5 gwaith yn ystod yr Haf, a diolch

hefyd i Alan Radcliffe, sydd wedi gwirfoddoli i dorri llwybrau taclus i'r beddau tra mae'r gwair yn hir.

Rhodd St Tegai 2023

Bydd diwrnod ein nawddsant St Tegai yn cael ei ddathlu ar Fehefin 5ed eto eleni. Bydd y Sul blaenorol, sef Mehefin 3ydd, yn gyfle i aelodau'r eglwys ac i ffrindiau sydd â chysylltiadau personol â phentref Llandygai, gynnig rhodd ariannol i ddathlu bywyd a gwaith y sant ar ddydd ei ŵyl. Derbynnir yn ddiolchgar unrhyw roddion drwy siec yn daladwy i Eglwys Llandegai Church, neu arian parod mewn amlenni trwy'r blwch postio i'r swyddogion; Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF (Ffôn 01248 600719); Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369) neu Edmond Douglas Pennant (Trysorydd a Warden y Bobl), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU. Os gwelwch yn dda a wnewch chi ysgrifennu enw llawn, cyfeiriad ac ebost ar eich

rhodd: mae'n bosibl hawlio Rhodd Gymorth am gyfraniadau cymwys.

Wrth gwrs mae'n bosib talu drwy drosglwyddiad banc (Cyfrif yr Eglwys: 30-90-43 00098435.

Diolch i bawb o'r ardal sydd wedi dangos diddordeb neu wedi cyfrannu eisoes i'n hachos.

Gwasanaethau

Ar y Sul

Mae gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

Ar Ddydd Mercher

Gwasanaeth am 10.15, a phaned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

Manylion Cyswilt

Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

Geiriadur Prifysgol Cymru – Geiriau dan Glo

Erbyn hyn, mae cyfyngiadau'r cyfnod clo yn dechrau mynd yn angof, ond nid yw'n anodd dwyn ei rwystredigaethau yn ôl i'r meddwl. Buom 'dan glo' er lles ein hunain ac eraill, ac yr oedd amser yn medru llusgo oni bai fod gennym gwmni a diddordebau neu orchwylion i'n cadw'n brysur a'n diddanu. I bob pwrpas yr oeddem wedi ein caethiwo, a dyma sut mae'r Geiriadur yn disgrifio **caethiwed** 'cyflwr un a garcharwyd neu a rwymwyd neu a ysbeiliwyd o'i ryddid a'i freintiau, caethglud ...'. I nifer o bobl yr oedd y cyfnod clo yn garchariad diflas, ac eto i eraill bu'n gyfle i gychwyn ar weithgareddau newydd a hyd yn oed i newid eu bywydau.

Mae'r Geiriadur yn diffinio **carchar** fel 'adeilad cyhoeddus y cedwir ynddo droseddwy'r gaeth neu'n rhwym'. Enwau eraill amdano medrwch chwilio amdanynt yn GPC Ar Lein (<https://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html>) yw **carchardy, caethle, clinc, dalfa, geol, gwart, jael, jêl, a phenydfa** (lle cosbi neu

boenydio) – digon o ddewis felly!

Am fethu talu ei ddyledion y carcharwyd John Jones, Gellilyfdy, ar ddechrau'r 17eg ganrif. Treuliodd sawl cyfnod dan glo yng ngharchar dyledwyr y Fflyd yn Llundain gan gadw ei hun yn brysur yn copïo llawysgrifau mewn llaw ac arddull nodweddiadol, gorchwyl a achubodd i'r dyfodol gynnwys llawer o lawysgrifau a fyddai fel arall wedi mynd ar goll. Hefyd – o ddiddordeb arbennig ac o fudd mawr i'r Geiriadur – fe luniodd restrau o eiriau am sawl agwedd ar fywyd bob dydd ei gyfnod: y tŷ a'i gynnwys; y fferm, gan gynnwys anifeiliaid a chyfarpar o bob math; crefftwyr traddodiadol a'u hoffer; a byd natur. Bu 'cyfnod clo' John Jones druan o fudd i'r iaith a'r genedl, er na fyddai hynny'n llawer o gysur iddo ar y pryd, siŵr!

Os hoffech ddysgu rhagor am restrau geiriau John Jones, mae 'na groeso mawr i chi ddod i gyfarfod blynyddol Cyfeillion Geiriadur

Prifysgol Cymru, yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth ar y trydydd o Fehefin am 2 o'r gloch. Yng nghwmni ein Llywydd, yr Athro Mererid Hopwood, bydd Ann Parry Owen a Gruffydd Aled Williams yn cyflwyno golygiad Ann o'r gwaith (Geirfâu'r Fflyd: 1632–1633: *Casgliad John Jones Gellilyfdy o eiriau'r cartref, amaeth, crefftau a byd natur*), a Maredudd ap Huw yn cyflwyno arddangosfa o lawysgrifau cysylltiedig. Mae'r digwyddiad am ddim, ac mae 'na groeso cynnes i bawb.

Os oes gennych unrhyw enwau neu eiriau yn ymwneud â charchar neu gaethiwo, mi fyddai'r Geiriadur yn falch o'u clywed. Medrwch gysylltu â ni drwy ein gwefan, ar e-bost (gpc@geiriadur.ac.uk), neu wrth ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol:

Geiriadur Prifysgol Cymru, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH

Pentir

Ysgolion Pentir

Yn dilyn pwt yn y Llais fis diwethaf, cafwyd ymateb diddorol iawn oddi wrth Lynda Pritchard. Adroddodd Lynda ei bod yn perthyn i'r hen ysgolfeistr, David Thomas, gan gynnig ychydig o hanes y teulu.

Ganwyd David ym 1809, yn fab i Thomas Rowlands a'i wraig Jane yn Cilmelyn,

Profedigaeth

Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth John Parker Turner, Bryn Hyfryd, Rhyd-y-Groes, Pentir. 'Roedd John yn gymydog da ac yn un

'Roedd John yn ŵr i'r diweddar Jan ac yn dad i Vikki, Becky, Katy ac Emily. Cynhaliwyd dathliad o fywyd John yn Amlosgfa Bangor ar 3ydd Mai.

Glasiſfryn a Chaerhun

Cyfarfod Blynyddol
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan ar 23
Mai 2023 am 7yh yn y Ganolfan. Estynnir croeso
i bawb fynychu y cyfarfod hwn.

Cylch Glasinfryn

Croesawodd Mair bawb i'r cyfarfod ar 12 Ebrill am 2yp. Braf oedd gweld Margaret yn y cyfarfod wedi ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Llongyfarchwyd Marian ar ei llwyddiant gyda'r opera "Y Bont" yng Nghaergybi a Phontio, – braf oedd clywed fod y seddau i gyd wedi eu gwerthu yn y ddau berfformiad. Dosbarthwyd y Rhaglenni am y flwyddyn sydd i ddod, – mae rhaglen ddifyr ar y gweill! Rhoddwyd yr Adroddiad Ariannol gan Carole, gan ddatgan ein bod yn iach yn ariannol wedi cyfraniad hael Cyngor Cymuned Pentir o £300 tuag at gynnal y Cylch.

Margaret, Jean a Kath oedd y gwesteion te, a Glenys enillodd y tusw hyfryd o Gennin Pedr yn y Raffl.

Y mis nesaf cawn sgwrs gan Tomos Jones o Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, ac yna ar 12 Mehefin sgwrs gan Averil Wayte ar "Hanes Pier Bangor". Cofiwch fod croeso mawr i bawb ddod draw.

Eglwys Sant Cedol

Cydynddeimlad

Anfonwn ein cydynddeimlad at deulu'r ddiweddar Mrs Beryl Griffith, Fferm Castell, Pentir, yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl. Mae'n cydynddeimlad dwysaf yn cael ei anfon at eu meibion Huw, Wyn, Alun, Dewi a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Yr un yw ein neges at deulu'r diweddar Mr John Turner, Bryn Hyfryd, Pentir, yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl. Mae ein cydynddeimlad dwysaf yn cael ei anfon at ei blant Vikki, Becky, Katie ac Emily a'u teuluoedd.

Te Bach

Brynhawn Mercher y 5ed Ebrill
cynhaliwyd y Te Bach misol. 'Roedd
yn achlysur llwyddiannus a hwyliog.
Enillwyd gwobr gyntaf y raffl gan
Eirwen, sef ŵy Pasg. Aeth yr ail
wobr i Elizabeth, hithau hefyd
yn ennill ŵy Pasg. Nia enillodd y
drydedd wobwr, sef bisgedi. Diolch i
bawb am eu cefnogaeth.

Bydd y Te Bach yn cael ei gynnal ar
brynhawn Mercher cyntaf o'r mis am
2 o'r gloch y prynhawn – y nesaf ar
y 7fed Mehefin. Mae croeso cynnes i
chwi i ymuno gyda ni am brynhawn
hwyliog gyda phaned, teisen a sgwrs.

Hamper Misol

'Rydym yn cynnal Raffl Hamper Misol ar themâu gwahanol bob mis er mwyn codi arian i gynnal yr eglwys. Enillydd hamper mis Ebrill oedd Ann Williams, yn rhoddedig gan Cefin. Fe aeth yr ail wobr i Gwyn Jones.

Hoffem ddiolch i'r aelodau, eu teuluoedd a'r teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl, a hefyd i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn eu rhodd o'r haperi. Diolch o galon i chi i gyd.

Gwasanaethau

Mae Gwasanaeth bob bore Sul am 9.30 ac mae croeso cynnes i bawb ymuno gyda ni, gyda phaned a sqwrs i ddilyn.

Manylion cyswllt

Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall yn ymwneud â'r eglwys cysylltwch gyda'r Parchedig Dr Gareth Lloyd, Arweinydd Aardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 36152. Cofiwch hefyd bod Nia (warden) 07719 918686 yna ichi os am unrhyw wybodaeth neu am sqwrs.

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garseddwen
Bethesda

600763 neu 07708 008051

GWASANAETH DYDD A NOS

CHRIS GRIFFITHS CYF
Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythrau ac
unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

 01248 713 369 neu 07813 455653

Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE (07887624459) henbarc13@gmail.com

Cofion

Anfonwn ein cofion ar Derek Hughes, Maes Bleddyn. Mae Derek wedi treulio rhai wythnosau bellach yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Mae'n golled peidio a gweld Derek ar y sgwter bychan o gwmpas y lle yma.

Clwb Hanes Rachub

'Roedd ystafell fawr y Clwb Criced yn orlawn ar nos Fercher olaf mis Ebrill, gan fod 'na hen ddisgwyl wedi bod am sgwrs Mary Jones am 'laith Pesda'. Mae'r golofn 'laith Pesda' yn Llais Ogwan wedi dod yn hynod boblogaidd erbyn hyn a nifer helaeth o'r ardalwyr yn ymhyfrydu mewn cofio, trafod a dehongli tarddiadau geiriau sy'n arbennig i'n hardal ni, ac i ardaloedd tebyg yn y rhan yma o ogledd Cymru. Mae'n amlwg iawn fod geiriau'n newid ac yn diflannu pan fydd cymdeithas yn newid, a hen greiriau ac arferion yn peidio â bod. Mae hyn yn wir am y chwarel wrth gwrs. Ychydig iawn sy'n defnyddio 'swper chwarel' erbyn hyn, a 'caniad', 'caban,' 'bargen' a' blocyn tân! Byddai trigolion yr ardal yn arfer defnyddio sŵn y ffrwydradau fel cloc bron iawn, oherwydd roedd y saethu'n digwydd yn rheolaidd. Clywyd pobol yn dweud pethau tebyg i "Mae'n rhaid i mi frysio.. maen nhw wedi saethu yn y chwarael... mae hi wedi un o'r gloch yn barod!" Mae'r term 'colli limpyn' yn gysylltiedig â'r chwarel hefyd sef colli'r 'lynch-pin' oedd yn cysylltu'r wagenni ar y 'lein fach', felly ,roedd popeth yn mynd yn wyllt ac ar chwâl.

Cafwyd trafodaethau am eiriau ac ymadroddion yn ymwneud â'r tywydd, tân a hyd yn oed ffræo! Mae haul y gwanwyn, wrth gwrs, yn waeth na gwenwyn, ac mae'r hen 'wynt diog' 'na yn mynd drwyddoch chi yn hytrach nag o'ch cwmpas! Dydi 'eira ŵyn bach' ddim yn debygol o barhau'n hir iawn, ac mae gweld eira ar gopaon y mynyddoedd cyn Ffair Llan yn erthyly'r gaeaf, felly gaeaf tyner fydd hi! Mae 'ffenast bach y Nant' a charreg sgleiniog yn ardal y Marchlyn Bach yn arwyddion tywydd arbennig iawn yn ôl y sôn. Crybwyllwyd 'tân oer', 'tân siafins', 'tân eira', tân yn picio', mŵg taro a 'thorri

glo mân yn gnapia'. Soniwyd am huddug, lludw, dynion lludw a lori ludw, - pethau sydd wedi diflannu erbyn hyn. A beth am y dillad fyddai'n 'deifio' o'u gosod yn rhy agos at y tân – a'r 'coesau corn bîff' a gaech pan fydddech yn sefyll yn rhy agos at y fflamau? Tybed a gawsoch gelpan, twll clust, cefn llaw, chwip dîn, bonclust neu swadan iawn erioed? Mae cymaint o eiriau gennym am ymosodiadau corfforol! Mae rhannau'r corff yn eithaf amlwg mewn enwau strydoedd, tai a phentrefi, e.e. Braichmelyn, Braich

Talog, Troed y Rhiw, Pen y Graig, ac un sy'n arbennig iawn i Rachub sef 'Talcen y Deyrnas' (Ffordd y Mynydd).

Diolch yn fawr iawn, Mary, am gyfarfod gwerth chweil!

Llongyfarchidau

Anfonwn ein llongyfarchiadau i Cristian a Sian, Cyffordd Llandudno ar enedigaeth, merch, Arwen Alun. Hefyd llongyfarchiadau i Bryn a Sue, Bron Arfon ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf.

Carmel Llanllechid

Yr Ysgol Sul

Bu'r plant yn brysur yn llunio dail palmwydd o bapur a'r Sul canlynol cawsant wisgo dillad tebyg i ddillad plant ym Mhalesteina yn amser Iesu, ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. I ffwrdd â ni wedyn ar hyd Rhes Gefn i weld y merlyn bychan del a oedd yn ein hatgoffa ni o'r ymdaith ar Sul y Blodau pan wnaeth Iesu farchogaeth ar yr ebol asyn i Jerwsalem. 'Roedd y plant yn canu wrth gerdded "Hosanna, Hosanna, rhoddwn groeso mawr i Ti".

"Iesu ydyw'r Bugail Da Porthi'r ŵyn a'r defaid wna.." Diolch i Mr Kevin Eccles, Rynys am ddod â dau oen bach inni gael eu gweld y tu allan i ysgoldy Carmel. 'Roedd y plant wrth eu boddau yn cael gafael ynddynt a rhoi mwythau iddyn nhw. Wrth glywed y ddafad a'r ŵyn bach yn brefu,' roedd y plant yn chwerthin yn braf

Llongyfarchiadau i Efa Gwen, un o blant yr Ysgol Sul am wneud yn ardderchog mewn cystadleuaeth gymnasteg yn Broughton. Enillodd 2ail wobr (naid), 5ed (llawr) a 3ydd (rhwng popeth). Diolch i hyfforddwyr "Dreigiau'r Dyffryn" i gyd.

Gwasanaethau
(am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)
Mai 21: Oedfa. (Sul y Gymanfa).
Mai 28: Gweinidog.
Mehefin 4: Gweinidog (Cymun).
Mehefin 11: Parchg. Alan Spencer.
Mehefin 18: Oedfa.

Ysgol Sul am 10.30yb.
Clwb Dwylo Pysur bob nos Wener am 6.30yh.
CROESO CYNNES I BAWB



Dail y palmwydd a Charlie'r merlyn



Dyma'r plant a'r ŵyn bach ar y beic pedwar olwyn gyda Beti yn dreifio!



Efa Gwen



Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar
@Llais_Ogwan

Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor Cymuned ar y 13eg o Ebrill yn Ffestri Capel Bethlehem, Talybont.
Cafwyd cyfarfod wrth y Cae Peldroed yn Nhalybont cyn y cyfarfod llawn i drafod gwella'r cae, a'r cynlluniau i ymestyn y maes parcio. Mae'r cynlluniau yn dod yn eu blaen.
Ma'r Cyngor yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu gyda chynnal a chadw'r cae. Os oes

gennych chi ddiddordeb cysylltwch gyda'r Clerc cyngorllanllechid@ogwen.org.
Yn dilyn cwyn am ddiffyg biniau baw ci ar y llwybr beicio newydd yn Wîg, mae'r Clerc am gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i wneud cais am gael biniau yno.
Mae gwefan Cyngor Cymuned Llanllechid wedi ei diweddaru: www.partneriaethogwen.cymru/en/community-councils/llanllechid/

YSGOL LLANLLECHID

Priodas Mr Sion Llywelyn

Llongyfarchwn Sion Llywelyn ar ei briodas â Delyth Jones yn ddiweddar, yn y Bala. Cafwyd diwrnod bendigedig a'r haul yn gwenu ar y fodrwy! Pob lwc i chi eich dau i'r dyfodol a phob dymuniad da. Mae Mr Sion Llywelyn yn aelod gwerthfawr o'r staff yn ein hysgol, a bu'n fraint cael rhannu'r diwrnod arbennig hefo chi a'ch ffrindiau a'ch teuluoedd. Braff iawn cael adrodd ar newyddion hapus fel hyn!

Dosbarth Meithrin

Aeth y dosbarth Meithrin draw i gapel Carmel yn ddiweddar, lle cawsant y croeso twymgalon arferol gan Mrs Helen Williams. Bu cyfle i ganu rhai o'r hen ffefrynnau, megis Diolch, Diolch lesu a chael mynd drwodd i'r ysgoldy am ddiod bach cyn ei throi hi am Barc Rachub. Bore bach bendigedig!

Cae Rhosydd

Bu rhai o'r disgyblion hynaf yn ymweld â'r safle adeiladau sydd dros y ffordd â Maes Bleddyn. Mae llawer o'r tai erbyn hyn wedi eu cwblhau, a chryn brysurdeb ar y safle adeiladu yn ddyddiol. Bu dosbarth Miss Gwenlli Haf draw am dro i ddysgu am y byd adeiladu a phwysigrwydd egni cynaliadwy yn nhermau y paneli solar ac ati. Dyma beth yw addysg go iawn, ar ein trothwy!



CHWARAEON

Bu'r plantos yn brysur yn cymryd rhan mewn gwahanol gystadlaethau yn ddiweddar gan gynnwys: rygbi a pêl-droed ar ôl ysgol; rygbi merched a chyrraedd y rownd gyn-derfynol; pêl-droed merched, a chyrraedd y rownd gyn-derfynol; pêl-droed a rygbi hogia. Diolch i Plas Ffrancon hefyd am gael defnyddio'r caeau bob tywydd a'r gampfa! Caffaeliad mawr i ni!

Ras Moel Wnion

Braff oedd cael croesawu'r ras hon yn ôl i'n hardal; y tro cyntaf ers dyddiau y caethiweid! Braff oedd cael cyfarfod y rhedwyr atom o bob cwr o'r wlad, a braff oedd clywed eu hanesion. Bu'r diwrnod yn un llwyddiannus dros ben, a'r golygfeydd wrth fynd drwy lidiart y mynydd yn werth eu gweld. Diolch arbennig i gymdeithas Rhieni/Cyfeillion am eu holl waith yn y gegin. Dyma nhw'r merched prysur: Ms Ceri Evans, Mrs Ceri Isaac, Mrs Gillian Griffiths, Ms Leanne, heb anghofio Mared Llywelyn ac Anna Isaac. Diolch arbennig i Siop Londis am ein cefnogi ac i Gwmni Jones Crisps am y danteithion. Llwyddwyd i godi £320 i gronfa'r ysgol. Diolch arbennig i Mr Ross Roberts.

Y Castell Siwgr

Bu dosbarth Miss Gwenlli Haf yn ymweld â chastell Penrhyn, fel cefndir i'r llyfr fydd o dan y chwydd wydr y tymor hwn, sef Y Castell Siwgr, Angharad Tomos.

Cyngerdd yn Ysgol Dyffryn Ogwen

'Rydym yn edrych ymlaen at gynnal cyngerdd yn Ysgol Dyffryn Ogwen ar Fai 10fed. Noson yn dechrau am 6pm. Bydd elw'r cyngerdd yn mynd tuag at gludo ein disgyblion i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanymddyfri. Dymuniadau gorau i'r côr cerdd dant a'r ensemble lleisiol yno, a da iawn chi! Croeso cynnes i bawb!

T H Parry Williams

Mae'r disgyblion hynaf wedi bod yn troedio'r

tiroedd o amgylch Rhyd Ddu yn ddiweddar, gan ryfeddu at y tirlun, a chraffu ar yr hyn a ysbrydolodd y bardd i gyfansoddi ei gerddi. Cafwyd amser hudolus a chyfle i ymdawelu, a dychmygu rhai o'r delweddau o waith y bardd, fel y "pysgotwr unig, yn rhwyfo plwc, yn awr ac yn y man..."

Côr y Penrhyn

Braff iawn yw croesawu Côr y Penrhyn i'r ysgol i ymarfer bob nos Lun, a braff iawn cael ambell sgwrs gyda Mr Fred Buckley, sydd wedi bod yn gosod y cadeiriau allan i'r côr ers pum mlynedd ar hugain.



PEN-BLWYDD HAPUS

Dymuniadau gorau i Mrs Llinos Wilson am benblwydd hapus iawn. Mae Mrs Wilson yn dathlu cyrraedd carreg filltir go arbennig! Llongyfarchiadau gwresog i chi Mrs Wilson a phob dymuniad da gyda'r dathlu!

Marchnad Ogwen

Mehefin 10fed
9.30am - 1pm

Neuadd Ogwen
Bwydydd,
Crefftau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
facebook instagram

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106 Porthaethwy (01248) 719517 Benllech (01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

YSGOL DYFFRYN OGWEN

Prynhawn Gyrfaoedd

Diolch yn fawr i'r holl fudiadau a busnesau a ddaeth draw at flwyddyn 10 yn ddiweddar fel rhan o'r prynhawn gyrfaoedd. Cafodd y disgyblion fudd o wrando ar y cyflwyniadau a'r cyfleoedd i holi!



Prynhawn Gyrfaoedd blwyddyn 10

Cystadleuaeth Fathemateg

Bu rhai o ddisgyblion blwyddyn 8 yn cymryd rhan yng Nghystadleuaeth Fathemategol Yr Urdd a'r Gymdeithas Wyddonol. Mae 1000 o ddisgyblion ar draws Cymru wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth gydag Elliwl Hywel ymysg y rhai a ddaeth i'r brig. Bydd yn derbyn gwobr mewn seremoni yn Eisteddfod yr Urdd er mwyn cydnabod ei champ. Llongyfarchiadau Elliwl!

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475

www.owenswales.co.uk

Cyfle Arbennig!

'Rydw i a dau arall o'm cyd-fyfyrwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc yn y chweched dosbarth wedi bod yn rhan o brosiect arbennig iawn gan bapur newydd Y Cymro yn ddiweddar. 'Lleisiau Newydd' oedd teitl y prosiect, a oedd wedi ei ariannu gan y Cyngor Llyfrau er mwyn annog cynulleidfaoedd newydd ac amrywiol. Fel rhan o'r prosiect 'roeddem yn cael y cyfle i ysgrifennu a mynegi ein barn am bynciau a oedd o ddiddordeb i ni. Fe gafodd ein gwaith ei gyhoeddi ym mhapur newydd y Cymro yn ogystal ag ar eu gwefan. 'Roedd hi'n fendigedig cael gweld ein gwaith wedi ei gyhoeddi, a chael clywed yr ymateb cadarnhaol gan ddarllenwyr Y Cymro. I goroni'r cyfan cawsom rhodd hael iawn (£100 yr un) am ein gwaith caled!

gan Osian Rowlands



Osian Rowlands, Nel Roberts a Cara Owen

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinnel

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau yn Llangefni a Llanrwst.



Bethesda 01248 600 045

bethesda@cljonesltd.co.uk

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda (600853)
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

Cofion a Dymuniadau Gorau

Gyda dyfodiad y Gwanwyn a’r tywydd braf, dymunwn wellhad buan i nifer o bobl Talybont sydd yn yr ysbyty.

Mae Idris Thomas, 16 Dolhelyg, yn gobeithio cael ei symud i Ysbyty Eryri, lle mae Neville Fearnley, Helyg, yn gwella’n ara’ deg ar ôl ei driniaeth fawr.

Yn Ysbyty Gwynedd mae David a Merfyn Jones, brodyr Christine, 10 Cae Gwigin. Bu’r ddau, ar wahanol adegau, yn yr Uned Gofal Ddwys ond, erbyn hyn, maent wedi troi at wella.

Yn Ysbyty Gwynedd hefyd, yn derbyn gofal, mae Mrs Myfanwy Williams, 4 Cae Gwigin.

Bu Thelma, 68 Bro Emrys, yn yr ysbyty am ddeng niwrnod dros Wyl y Pasg, ond mae hithau adref bellach ac yn gwella’n foddhaol o dan ofal arbennig Ron.

Cafodd Enfys, 2 Cae Gwigin, driniaeth ddigon annifyr i’w llaw yn ystod mis Ebrill. Mae’n dda cael dweud bod y briw wedi gwella, a’r driniaeth wedi bod yn llwyddiannus.

Cofiwn yn annwyl iawn am Anne, Bryn Môr, sy’n aros, ar hyn o bryd, yng Nghartref Nysio Bryn Marl, Cyffordd Llandudno.

Erbyn i’r sylwadau hyn weld golau dydd, mae’n bosibl bydd sefyllfa ambell un wedi newid, ond mae’n dymuniadau am eu iachâd yr un mor ddiffuant, lle bynnag y byddant.

Anfonwn gofion cynnes hefyd at y trigolion rheiny mewn iechyd bregus nad yw eu henwau wedi’n cyrraedd.v

Diolch

Hoffwn ddiolch o waelod calon i bawb a wnaeth fy mhen-blwydd ‘arbennig’ yn un i’w gofio; a diolch yn fawr iawn i Nev am ei eiriau caredig yn rhifyn mis Ebrill o’r ‘Llais’.

(Barbara)

Capel Bethlehem

Oedfaon (am 2 o’r gloch)

Mai 21: Parchg. Geraint Roberts.

Mai 28: Y Gweinidog

Mehefin 4: Parchg. Alan Spencer.

Mehefin 11: Y Gweinidog.

Mehefin 18: Oedfa.

Mehefin 25: Y Gweinidog.

Croeso cynnes i bawb.

Cartref newydd

Croeso i Matthew a Chloe i Ogwen Cottage, cartref Miss Vera Hughes erstalwm. Mab hynaf Dave a Wendy Smith, 47 Bro Emrys, ydi Matthew, ac mae Chloe yn dod o Foelfre.

Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn eu cartref newydd. Mae’n braf gweld cwpl ifanc arall yn ymgartrefu yn y pentref.

Y Cynghorydd Elwyn Jones

Ar ôl derbyn addysg yn Ysgol Rhiwlas, Ysgol Dyffryn Ogwen a’r Coleg Normal ym Mangor cychwynnais ar yrfaoedd sydd wedi mynd a fi i sawl cyfeiriad cyn ymddeol fel Uwch Weithiwr leuenctid efo Cyngor Gwynedd yn 2012.



Chydig nes i feddwl y byddwn i yn ôl yng Nghyngor Gwynedd fel Cynghorydd Annibynnol yn 2017, a llai fyth y byddwn yn cael fy ethol yn Gadeirydd bum mlynedd yn ddiweddarach – ond felly y bu hi.

Cefais ymweld â sawl ardal o’r sir a thu hwnt wrth gynrychioli’r Cyngor, a mwynhau cyngherddau a llwyddiant Cwmniau ac unigolion yn ogystal a chroesaw unigolion o ddinasyddion Prydeinig bron iawn bob diwedd mis, yn Siambr Dafydd Orwig.

Mae’n anodd dewis uchafbwynt o’r ymweliadau ond bydd Cyngerdd Hosbis Dewi Sant yn y Gadeirlan yn aros yn y cof am byth. Noson arbennig arall oedd cael troi

golau’r goeden Nadolig gyntaf erioed ymlaen yn Rhiwlas, ac efallai mae cyfuniad o’r ddau ddigwyddiad hwnnw a blannod yr hâd i mi drefnu Cyngerdd yn Neuadd Rhiwlas i godi arian tuag at Steddfod Boduan. Fy nyletswydd diwethaf fydd agoriad swyddogol Pont Bodefail, nid nepell o safle’r Brifwyl.

Ie, baint aruthrol oedd cael bod yn Gadeirydd yn 2022 ond nid oedd 2022 yn flwyddyn hawdd i mi wrth golli Margaret ar ôl 45 o flynyddoedd.

JRSGAFFALDIAU Cyf.**JR**
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)

Dilynwch Llais Ogwan ar www.llaisogwan.com

CREIGIAU GEIRWON

Sioe sy’n dathlu hanes cyfoethog Eryri trwy ddrama, hiwmor, cerddoriaeth byw a dawns fertigol!

gan Wyn Bowen Harries
Cwmni Pendraw,
Kate Lawrence Vertical Dance
Pontio
Mehefin 22-24

Creigiau Geirwon: Sioe sy'n datgelu hanes colledig tywyswyr mynydd cynnar Eryri

Bydd sioe newydd sy'n dod i Pontio, Bangor - Mehefin 22,23,24 - yn cyflwyno hanes tywyswyr mynydd cynnar Cymru, - stori o'n hanes lleol na chafodd ddigon o sylw yn y gorffennol.

'Roedd rhai o'r tywyswyr mynydd cynnar, yr entrepreneuriaid o blith tyddynwyr, tafarnwyr a chwarelwyr, yn gweld cyfle i ennill ceiniog drwy rannu'u gwybodaeth leol drwy arwain botanegwyr, artistiaid, ac eraill, ar hyd llethrau geirwon Eryri.

Bydd yr actorion Iwan Charles, Llŷr Evans a Manon Wilkinson yn defnyddio hiwmor a drama i'n tywys drwy'r hanes, gan ein cyflwyno i sawl cymeriad ar hyd y daith. Cefnogir hwy gan gerddoriaeth byw gan Casi Wyn, Mared Williams (yn lle Casi Mehefin 24), a Patrick Rimes, a symud ar raffau o dan arweiniad dawnswyr fertigol Vertical Dance Kate Lawrence.

Yr actor Wyn Bowen Harries sydd y tu ôl i'r cyfan. Ef sydd wedi sgwennu'r ddrama, ei chynhyrchu a'i chyfarwyddo, gyda Kate Lawrence yn cyfarwyddo'r ddawns fertigol unigryw, sydd yn cyfleu'r dringo ar hyd y llethrau.

Meddai Wyn, "Dyma agwedd ar ein hanes sy'n newydd i'r rhan fwyaf ohonom. 'Rydym efallai'n gwybod bod artistiaid y 18 ganrif yn teithio i Eryri i baentio'r golygfeydd 'gwyllt' rhamantus, a bod botanegwyr cynnar wedi ymweld i ganfod a chasglu planhigion prin, ond 'roeddynt angen gwybodaeth leol i gyflawni hyn. Yn amlwg, 'roedd rhai brodorion yn fotanegwyr da, ac yn adnabod y planhigion prin a'r mannau lle y tyfant.

Mae'r sioe yn cyflwyno peth o'u hanes, a chyda newid hinsawdd a'r bygythiad i'n planhigion gwyllt, mae hyn yn wybodaeth werthfawr i ni heddiw."

Noddir y cynhyrchiad gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau.

THEATR BRYN TERFEL, PONTIO, BANGOR

Mehefin 22ain 7.30 (Rhagwelediad pris isel)
Mehefin 23ain 7.30
Mehefin 24ain 2.30 a 7 .30

PRISIAU TOCYNNAU RHAGDDANGOSIAD
22 Mehefin
Pris Llawn: £10
Pris Gostyngol (dros 60) £10
Myfyrwyr: £8
Plant o dan 18: £8

PRISIAU TOCYNNAU 23 / 24 Mehefin
Pris Llawn: £16
Dros 60: Pris Gostyngol (dros 60) £12
Myfyrwyr: £10
Plant dan 18: £10
Tocyn Teulu ar gael

Planhigion

- 'Roedd gan bobl frodorol wybodaeth dda am berlysiâu meddyginiaethol - hyn yn angenrheidiol gyda phrinder a chost doctoriaid, - a byddai wedi cael ei throsglwyddo ar lafar i lawr y cenedlaethau. 'Roedd rhai enwau Cymraeg yn esbonio defnydd y planhigyn - e.e. Pren y ddannoedd.
- Un rheswm dros ymweld ag Eryri dros y canrifoedd oedd diddordeb mewn adnabod a chasglu planhigion prin.
- Daw'r record argraffedig cyntaf o rywun yn cyflogi tywysydd mynydd yn Eryri o 1639, pan ddaeth Thomas Johnson, apothecari o Lundain ar ymweliad. Ysgrifennodd sut y bu iddo gyflogi mab ffermwr lleol i'w dywys i fyny'r Wyddfa. Ym 1658 llogodd fotanegydd mwyaf nodedig Lloegr, John Ray, dywysydd ar gyfer ei ymweliad â'r Wyddfa.
- Ym 1706 disgrifiwyd Edward Lluyd fel 'y naturiaethwr gorau yn Ewrop ar hyn o bryd'. Bu'n ymweld ag Eryri o tua 1680 ymlaen. Ef a adnabyddodd lili'r Wyddfa yng

Nghwm Idwal, fel rhywogaeth unigryw, er nad oedd y lili wen fechan yn ei blodau ar y pryd. Ailenwyd lili'r Wyddfa neu brwynddail y mynydd, yn ôl y drefn wyddonol yn Lloydia serotina er anrhydedd iddo.

- Erbyn y 1700au roedd planhigion prin yn cael eu hel heb gonsyrn, gyda'r nod o gyflawni 'herbarium'. Gwaethygydd y sefyllfa yn sgîl 'The Great Victorian Fern craze' yr 1830'au. Gwelwyd aelodau'r dosbarth canol ac uwch yn hel planhigion o rewynau prin fel symbol o statws, gydag ychydig ddiddordeb yn y planhigion eu hunain. Wrth gwrs roedd pobl dlawd yn gweld cyfle i ennill ychydig o bres.
- 'Roedd William Williams neu 'Wil Bwts' ymysg yr enwocaf o'r tywyswyr, ac 'roedd enw da iddo, gan iddo arbenigo mewn botaneg. Ond 'roedd Wil Bwts yn sylweddoli fod yntau a'i fath yn rhan o'r broblem, ac yn aml 'roedd o ac eraill yn gwrthod datgelu lleoliad planhigion prin. 'Roedd yn aml yn eu cuddio o'r golwg ac 'roedd ganddo gynllun i greu ynys yng nghanol llyn bychan yn Llanberis- sydd bellach o dan y lôn osgoi. Pe bai'r cynllun wedi'i wireddu hon fyddai gwarchodfa natur gyntaf Eryri ac efallai Cymru!

Yr Wyddfa

- Mae'n debyg bod pobl wedi dringo i'r copa ers cyn cof. Roedd John Lloyd o Gorwen (1662-1725), cyfaill i Lluyd yn sôn bod wâl yn amgylchynu'r copa er mwyn darparu rhywfaint o gysgod pan fu'n ymweld. Nid yw teithiau i weld y wawr o'r copa yn newydd- 'roedd pobol yn gwneud hyn yn oes Fictoria- mewn gwisg lawn o'r oes, gan gynnwys het silc ac ambarél!
- Rhoddodd y Cymro o ogledd Cymru, Thomas Pennant (1726-1798) Gymru ar y map ac yn nychymyg pobl drwy ei Tours of Wales. Defnyddiodd dywysydd mynydd, - Huw Siôn mae'n debyg, i ddringo'r Wyddfa.



Dilynwch Llais Ogwan ar
Trydar @Llais_Ogwan

Elusen Ogwen – diweddariad a gwahoddiad i ymddiriedolwyr newydd

Cafodd Elusen Ogwen flwyddyn lwyddiannus yn 2022-23, gan ddosbarthu grantiau gwerth cyfanswm o £15,675, o'i gymharu â £8,452 yn y flwyddyn ariannol flaenorol. 'Rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth barhaus Ynni Ogwen; derbyniwyd cyfanswm o £13,000 ganddynt yn ystod y flwyddyn. Ar ben hyn, derbyniwyd

dwyrdd arall, sef £50 gan Ynni Lleol, a £6,379 gan NFU Mutual a diolchwn i'r ddau sefydliad am eu cymorth. O ganlyniad, cyfanswm ein hincwm am y flwyddyn oedd £19,429. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi bod yn ymwybodol iawn o'r argyfwng costau byw a achoswyd gan y cynnydd sydyn ym mhrisiau ynni ac roedd bron i 60% o'r

grantiau a roddwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â lleihau costau i unigolion a sefydliadau yn yr ardal.

Fe wnaethom helpu i ariannu dau brosiect a oedd â'r nod o leihau costau i drigolion lleol. Un o'r rhain oedd cynllun arloesol wedi'i redeg gan PETHA i gasglu, golchi a pheccynnu



- Tua 1836/7 adeiladwyd cytiau syml ar y copa. Aeth William Williams, tywysydd botanegol blaenllaw, i bartneriaeth efo Morris Williams o Amlwch i ddarparu lluniaeth yn y cytiau.
- Yn ddiweddarach, 'roedd dau gwt yn cael eu cynnal gan westai'r Royal Victoria a Dolbadarn, Llanberis.
- Erbyn 1850 'roedd yn bosibl, am bum swllt, treulio noson yno, gyda swper, gwely a brecwast mewn amodau digon cyntefig mewn cwt yn mesur 12' wrth 9', gyda stof rydlyd, stôl deircoes a mainc.

Y Tywyswyr

- 'Roedd sawl tywysydd yn honni eu bod wedi dringo'r Wyddfa filoedd o weithiau yn ystod eu gyrfa, gyda llawer yn dringo cymaint â thair gwaith y diwrnod. Byddai'r tywyswyr yn arwain rhwng Mawrth a Thachwedd. 'Roeddynt hefyd yn cario poteli diod yr ymwelwyr, oedd yn gwisgo gwisg lawn, yn hytrach na dillad mynydda.
- 'Roedd nifer hefyd yn chwarelwyr, yn cadw gwesty neu'n dyddynwyr, er, erbyn cyfnod Fictoria 'roedd rhai'n gwneud bywoliaeth llawn-amser drwy dywys, ac yn arbenigo mewn botaneg neu ddaearreg.
- 'Roedd rhai cofnodion yn nodi bod eu tywyswyr yn filwyr oedd wedi eu hanafu, fel

y tywysydd anhysbys sy'n cael ei anfarwoli mewn cerdd gan William Southeby yn 1794.

- Un o'r tywyswyr mwyaf adnabyddus oedd William Williams, y 'Botanical Guide'. 'Roedd yn fotanegydd heb ei ail, ac yn gymeriad unigryw, gyda dawn i ennill cyhoeddusrwydd. Gwisgai gap ffwr gyda'r geiriau 'Botanist Guide'. 'Roedd yn ddringwr da a deimlai'n gyfforddus ar y creigiau, ac a oedd yn cadw rhaff wrth law ar gopa'r Wyddfa ar gyfer hel planhigion i'w gwsmeriaid. Ond, wedi bod allan ym mhob tywydd am yn rhy hir, fe dorrodd y rhaff o dan ei bwysau a disgynnodd i'w farwolaeth oddi ar Glogwyn y Garnedd ar 13 Mehefin 1861.
- 'Roedd dyfodiad y rheilffordd i Lanberis yn 1869 ac agor rheilffordd yr Wyddfa yn 1896, yn dod â mwy o ymwelwyr i Lanberis, ond hefyd yn ddechrau'r diwedd i dywyswyr mynydd y cyfnod. 'Roedd mwy o bobl yn cerdded a gwelliannau yn gwneud y llwybrau'n fwy amlwg, fel nad oedd angen tywysydd. Gan weld y dyfodol yn dod, cymrodd un tywysydd, Owen Glas, swydd gyda rheilffordd y 'Snowdon Tramroad and Hotels Company' gan rannu ei wybodaeth gyda theithwyr trên.
- 'Roedd John Hughes o Gapel Curig, a oedd yn galw ei hun 'The Guide to the Snowdonian hills' yn rhannu ei brofiadau a chwedloniaeth Eryri gyda'i gwsmeriaid, tra bod gan Elias Robert (Lias Bach) lais arbennig a byddai'n diddanu ei gwsmeriaid gyda'i ganu.

Ymarferion cynnar a prif actorion y cast
Manon Wilkinson, Llyr Evans ac Iwan
Charles a'r cerddor lleol Patrick Rimes



gwisgoedd ysgol a'u pasio ymlaen i deuluoedd newydd. A'r ail o'r rhain oedd cynllun Dyffryn Gwyrdd i ddarparu bylbiau golau sy'n arbed ynni mewn pecynnau teulu a oedd yn cael eu dosbarthu drwy ysgolion lleol.

Roedd lleihau costau ynni neu ddarparu ynni mwy cynaliadwy ar gyfer sefydliadau hefyd yn thema yn y grantiau a roddwyd gennym. Talwyd grant i glwb gymnasteg Dreigiau'r Dyffryn i osod goleuadau LED sy'n fwy effeithlon na'r goleuadau presennol ar

eu safle. Talwyd grant hefyd i Asynnod Eryri, elusen sy'n hybu iechyd a lles plant ac oedolion, ar gyfer gosod panel solar ar eu safle.

Un o amcanion Elusen Ogwen yw cysylltu unigolion o bob oed â'r amgylchedd, ac yn hyn o beth 'roeddem ni'n falch o ddarparu cyllid ar gyfer gardd yn yr ysgol feithrin leol, Cylch Meithrin Tregarth. Fe wnaethom hefyd ariannu dau brosiect i godi ymwybyddiaeth amgylcheddol pobl iau; trefnwyd y naill o'r rhain gan Barc Moch a'r llall gan Bwyd

am Byth CIC.

Talwyd dau grant bach pellach, un i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanllechid i helpu gydag ailgylchu ac un i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ar gyfer gwella'r llwybrau mewn gwarchodfa natur leol.

Gallwch wneud cais am gyllid ar gyfer prosiectau bach o hyd at £750 ac ar gyfer prosiectau mwy hyd at £3,000. Mae canllawiau ymgeisio a ffurflenni cais ar gael ar wefan Dyffryn Ogwen yn y cyfeiriad <https://www.ogwen.cymru/cy/prosiectau-cymunedol/elusen-ogwen/> neu cysylltwch â ni ar elusenogwen@gmail.com.

Y dyddiad nesaf ar gyfer derbyn ceisiadau yw 30 Mehefin 2023.

'Rydym hefyd yn edrych am ymddiriedolwyr newydd. Cysylltwch â ni gyda'r cyfeiriad e-bost uchod am sgwrs os hoffech fod yn aelod o'r bwrdd a chyfrannu at wella ansawdd bywyd trigolion, grwpiau a chymunedau Dyffryn Ogwen. Byddwn yn cyfarfod oddeutu chwe gwaith y flwyddyn.

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

FESTRI CARMEL



Cynhelir
TE BACH

**Dydd Llun,
5 Mehefin
2.30 – 4.00**

Croeso i bawb.

CANOLFAN CEFNFAES



Bore Coffi
Eglwys Crist
Glanogwen



Sadwrn, 17 Mehefin 10.00 – 12.00
Mynediad: £1.00

DYDDIADUR BOREAU COFFI

2023

17 Mehefin – Cefnfaes –
Eglwys Crist Glanogwen.

24 Mehefin – Cefnfaes
– Cronfa Goffa Tracy
Smith.

08 Gorffennaf – Cefnfaes – Eisteddfod
Gadeiriol Dyffryn Ogwen.

16 Medi – Cefnfaes – Plaid Cymru
Dyffryn Ogwen

23 Medi – Cefnfaes – Eglwys Crist
Glanogwen

14 Hydref – Cefnfaes – Eisteddfod
Gadeiriol Dyffryn Ogwen

Pwysig

Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal
Bethesda, bydd y rhestr uchod yn
gymorth i chi ddewis dyddiad gwag.
Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad
chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei
diweddarau ac yn ymddangos pob
mis. Anfonwch y manylion at Neville
Hughes (600853).



BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison
Rhaid gwneud apwyntiad.

Ffoniwch: 07796 038824

CANOLFAN CEFNFAES

Gyrfa Chwist

Mai 23 a 30
Mehefin 13
am 7 o'r gloch.



Croeso i bawb

STEPHEN JONES TREFNWR ANGLADDAU CYF



PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS



BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976

Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

SAMARIAID

Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

Amgueddfa Storiel

Bydd arddangosfa ddiweddaraf amgueddfa Bangor, Storiel yn dathlu gwaith yr argraffdy Enfys. Sefydlwyd Enfys yn hen fecws Rachub ym 1972, cyn symud i Lôn Caernarfon yng Nglanadda am bedair mlynedd, yna dychwelyd i Fethesda ac ail sefydlu'r busnes yn 3 Cefn Carmel, Llanllechid. Bydd yr arddangosfa yn arolwg o'r gwaith a grëwyd dros y cyfnod yma ac yn canolbwyntio ar waith sydd a chysylltiadau eang â Bethesda.

Arddangoswyd rhai o bosteri Stuart Neesham (prif ddylunydd Enfys) yng Ngŵyl Ara' Deg y llynedd, gyda'r artist yn trafod ei waith ar banel fel rhan o swyn Sain.

Efallai mai clawr llwch Afal Drwg Adda gan Caradog Prichard a fyddai llawer yn gyfarwydd ag ef, ond dyluniodd Neesham hefyd gloriau i recordiau bandiau fel Yr Atgyfodiad a Brân, a phosteri'r clwb ieuenctid Lle Da a Gŵyl Dyffryn Ogwen ym 1977. Yn wir, 'roedd argraffdy Enfys yn adnabyddus am ei bosteri llachar ac arloesol i gigiau cerddoriaeth roc seicadelig a gynhelid ym Mhrifysgol Bangor yn y saithdegau cynnar. Prif nod yr arddangosfa yma yw cael cipolwg ar is-ddiwylliant roc a pop yng Ngogledd Cymru, a'r bandiau rhyngwladol a ddaeth i ddiddanu trigolion lleol a myfyrwyr y ddinas ar gymuned agos.

Bydd yr arddangosfa ar agor i'r cyhoedd o Ebrill 29 hyd O'rffennaf yr 8fed (11yb. -5 yh. O ddydd Mawrth i ddydd Sadwrn)

Storiel, Ffordd Gwynedd, Bangor, Gwynedd LL57 1DT
AM FWY O WYBODAETH

<https://www.storiel.cymru/>

Côr y Penrhyn

gyda Derfel Roberts



Perfformiad hyderus yn Huddersfield

Yn nechrau Ebrill bu aelodau'r côr yn perfformio yn Huddersfield am y tro cyntaf yn eu hanes. Cynhaliwyd y cyngerdd ar y cyd efo Côr Merched Marsh o'r dref honno wedi iddyn nhw ddod i Fethesda llynedd i ganu yn Eglwys Glanogwen. Capel Methodistiaid Lindley yn Huddersfield oedd man cynnal y cyngerdd ac estynnwyd gair o groeso i aelodau'r Penrhyn gan gyflwynydd y côr merched.

Canu da mewn cwmni hwyliog

Roedd Llion Derbyshire ac Islwyn Owen o'r Felinheli yn edrych ymlaen yn eiddgar at y daith gan iddynt ill dau fwynhau ymweliad y côr ag Aberteifi a Stadiwm Rygbi'r Principality ychydig fisoedd ynghynt. "Mae cael canu o flaen cynulleidfya mewn lleoedd gwahanol yn rhoi gwefr i ddyn," meddai Llion ac roedd Islwyn yn cytuno pan sylwodd, "does dim byd tebyg i gwmni hwyliog

hogia'r côr ar daith bws i lefydd pell ac agos. Rydw i'n falch o gael canu ymysg lleiswyr profiadol a soniarus fel Aled Williams, Haydn Davies, Emyr Fôn Evans ac eraill."

Atborth Rhyfeddol

Roedd Owain Arwel, arweinydd Côr y Penrhyn wedi dewis amrediad eang o ganeuon o raglen y côr lle'r oedd y dewis yn rhoi'r pwyslais ar ganeuon Cymraeg a Chymreig. Yn yr hanner cyntaf cyflwynwyd Y

Ddau Wladgarwr; Mor Fawr Wyt Ti a Pererin Wyf, tra roedd yr ail hanner yn cynnwys caneuon fel **Moliannwn; Heriwn, Wynebwn y Wawr a Gwinllan a roddwyd**. Mewn neges i Alun Davies, dywedodd Helen o Gôr Merched Marsh eu bod hwy wedi mwynhau'r cyngerdd gyda Chôr y Penrhyn yn eithriadol a'u bod fel côr lleol wedi derbyn atborth rhyfeddol o ganmoliaethus gan aelodau'r côr a chan fynychwyr y cyngerdd a ddaeth i wrando o'r ardal.



Y ddau gôr yng nghapel Lindley Huddersfield. Llun Emyr Roberts

Bendith ar briodas

Ar 23 Ebrill bu'r côr yn cymryd rhan mewn gwasanaeth i fendithio priodas Siwan a James yng nghapel Jerusalem. Daeth tyrfa fawr ynghyd i gymryd rhan yn y gwasanaeth o dan arweiniad y Parchedig Anna Jane Evans gyda'r Foneddiges Menai Williams wrth yr organ. Canodd y côr dri darn, sef **Benedictus** yn Lladin, gyda **Ti yw'r Hwn a Pererin Wyf** yn y Gymraeg. Unwaith eto dyma brawf o ymlyniad Côr y Penrhyn wrth y gymuned leol a'r dasg o gefnogi achosion da yn yr ardal. Pob dymuniad da i Siwan a James ar eu taith trwy fywyd.

Caplan Bro i Fethesda – neges gan Y Parchedig Sara Roberts

Mae Esgobaeth Bangor (Eglwys yng Nghymru) wedi fy mhenodi i swydd newydd (swydd arloesol yn yr Eglwys) fel 'Caplan Bro'. Dewiswyd yr enw yma oherwydd teimlwyd bod bobl yn deall ystyr 'Caplan' gan eu bod wedi dod ar ei draws mewn ysbytai, carchardai neu'r fyddin. Mae Caplan yn ymrwymo i wasanaethu cymuned benodol ac yn cyd-gerdded gyda'r aelodau trwy eu profiadau unigryw yn y gymuned honno. Dwi'n falch iawn o cael fy mhenodi i wasanaethu'r gymuned unigryw ym Methesda ac yn edrych ymlaen i gydweithio gyda'r mudiadau a sefydliadau sydd eisoes ar waith yma.

Dros y 18 mis ers i mi symud i Fethesda 'rwyf wedi bod yn arbrofi gyda phethau newydd fel yr Eglwys Wylt, ac 'rwy'n bwriadu parhau gyda hyn, a hefyd edrych allan am gyfleon i ddatblygu prosiectau newydd. Un o'r rhain fydd grŵp galar, Caffi Colled, fydd yn cychwyn cyn bo hir, rwy'n gobeithio. Mae'r 'P'nawn Difyr' ar brynhawniau Gwener yn gyfle i bobl ddod ynghyd am sgwrs, chwarae gemau bwrdd, efallai gwneud chrefft ac, wrth gwrs, mwynhau paned (a chacen!). 'Rydym yn cwrdd yn Gorffwysfan rhwng 12 a 3 o'r gloch, a diolch o galon i'r Pwyllgor sydd wedi bod yn hael iawn yn cynnig y gofod yma

i'r gymuned. 'Rwy'n edrych ymlaen hefyd i ddatblygu perthynas gyda'r ysgolion lleol trwy gynnig gwasanaethau ar adegau arbennig o'r flwyddyn. Yn fwy na dim byd, fy ngobaith yw i fod ar gael i wrando, sgwrsio, cefnogi a chysylltu gyda phwy bynnag sydd eisiau. Mae croeso i unrhyw un gysylltu â mi am sgwrs, gweddi, cymorth ymarferol, ayyb. Byddaf hefyd yn rhan o'r tîm sy'n cynnal yr eglwys yn yr ardal, o dan arweinyddiaeth y Parchedig Gareth Lloyd, ac yn cymryd gwasanaethau ar y Sul, ar foreau Mercher yng Nglanogwen, angladdau, priodasau a bedydd. Os gwelwch i fi o gwmpas y stryd, mewn caffi, neu yn garddio yng Ngardd Ffrancon, cofiwch ddod draw a dweud, 'helo' – eich Caplan chi ydw i. Dilynwch Eglwys Wylt ac Eglwys Glanogwen ar Facebook

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd lau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwygo ar gyfer partïon o
bob math - plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Prisiau rhesymol

ORIAU AGOR

D. Mercher, lau, Gwener 8.00 - 2.30

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

PERCHNOGION
A.L.L. ac R.W. WILLIAMS
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWYR
NEU DDAMWAIN

Ffôn: 600 723

E-bost: ffrydlas@btconnect.com



Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar
@Llais_Ogwan

Difyrion Digidol

Deian ap Rhisiart

Os y cofiwch, rai misoedd yn ôl fe soniais
am ein beic digidol yn fy ngholofn.

I'ch atgoffa, mae'r beic digidol yn
gysyniad sy'n wreiddiol o Scandinafia. Yn
syml, daw o feic ymarfer cyffredin iawn
sydd wedi'i addasu a'i weirio i liniadur trwy
gyswllt USB. Wrth agor Google Streetview
o flaen sgrin fawr neu daflunydd, mae'n
bosibl wedyn pedlo a mynd i le bynnag
yn y byd sydd ar Google Streetview.
Mae'n fuddiol nid yn unig i ymarfer y corff
ond ysgogi'r meddwl drwy 'hel atgofion
ar hyd llwybrau'r cof'. Fe gynigiodd
Cymunedau Digidol Cymru ar y cyd gyda
ffisiotherapydd o Ysbyty Gwynedd y syniad
mewn cystadleuaeth sbarduno syniadau
ym Mharc Gwyddoniaeth Msparc cyn i
Covid daro, ac fe ddaethom i'r brig gan
ennill gwobr ariannol i ddatblygu'r syniad
ymhellach.

Dros ddwy flynedd wedyn, ar ôl darllen
am y beic yn y Gadlas, yn mro ei febyd
yn Llangernyw, cysylltodd Daron Harris,
athro technoleg gwybodaeth o Ysgol
David Hughes, yn datgan ei ddiddordeb
i'w fyfyrwyr adeiladu beic tebyg. Ymunodd
Seiriol Edwards o Gyngor Môn yn y fenter,
ac fe wnaeth y Cyngor gytuno i ariannu'r
darnau i'r beic.

Felly, cafwyd her undydd fawreddog
ar Fawrth 17 i adeiladu beic, fe gafodd
y myfyrwyr yn Ysgol David Hughes

gyfle i ymarfer eu sgiliau technolegol ac
electronig, eu sgiliau cydweithio, a datrys
problemau yr un pryd. Yr oedd y diwrnod
yn ras yn erbyn amser ac yn her yng ngwir
ystyr y gair.

A wnaeth y myfyrwyr ateb yr her? Yn ôl
Daron Harris: "Drwy'r dydd mi oeddwn i
wedi bod yn cnoi dipyn ar fy ewinedd yn
poeni ein bod ddim am orffen mewn pryd,
ond mi 'rydan ni wedi cwblhau mewn
amser braf. Mae pob dim yn gweithio ac
mae'n barod i gael ei ddefnyddio gan bwy
bynnag sydd yn dymuno hynny."

Y cam nesaf yw cyflwyno'r beiciau i
gartrefi gofal Ynys Môn. Y cartref cyntaf i
fanteisio o'r beiciau digidol yw Hafan Cefni.

Yr hyn sy'n andros o bwysig am y
prosiect hwn yw ei fod yn tynnu pobl a
sefydliadau at ei gilydd i gydweithio, -
Ysgol David Hughes, Cyngor Môn, cwmni
ailgychu cyfrifiadurol North Wales Recycle
I.T. a roddodd y gliniaduron am ddim.
Hefyd, rhaid nodi parodrwydd myfyrwyr yr
ysgol i adeiladu a datrys problemau, ac yn
y pen draw greu rhywbeth gwirioneddol i
wella ansawdd bywyd pobl fregus. Mae
yna sgôp enfawr i ddatblygu prosiectau
eraill yn deillio o gofnodi hanesion byw
pobl, ac iaith lafar unigiolion, trwy'r beic.
Yn sicr, mae yna gyfeiriadau gwahanol i'r
prosiect ddatblygu a ffynnu.

'Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at
weld canlyniadau ail ran y prosiect, i weld
y bobl ifanc yn ymweld â'r cartrefi gofal, a
chlywed hanesion difyr pobl, gan barhau
â'r daith ar hyd llwybrau'r cof.

Os hoffech chi brofi'r beic yn eich
cartref henoed lleol, neu os ydych chi
angen cymorth i adeiladu beic o'r newydd
yn yr ysgol, cysylltwch gyda mi deian.
apRhisiart@cwmpas.coop



Carneddi

Priodas Aur

Yn ddiweddar dathlodd leuan a Blodeuwedd Wyn, Talgarreg, Carneddi eu priodas aur ac aeth y ddau i Kinsale yn Ne Orllewin yr Iwerddon am ychydig ddyddiau i ddathlu'r achlysur. Llongyfarchiadau a phob hwyl i'r ddau wrth iddyn nhw gychwyn ar ail hanner canmlwyddiant eu bywyd priodasol.

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr. Glasnant Davies, Mr. a Mrs. Glanfor Davies a Mrs Falmai Davies, ar golli brawd, a brawd yng nghyfraith yn Awstralia ar 30 Ebrill, sef Mr. Tudwal Davies.

Sefydliad y Merched Carneddi

Cynhaliwyd ein cyfarfod mis Chwefror yn festri Capel Jerusalem ar yr 2il o Chwefror. Croesawodd Nicola bawb yno a diolchodd i Annwen am ganfod lle i ni i gyfarfod ar fyr rybudd.
Da yw deall fod Gwyneth Morris yn parhau i wella ar ôl cael clun newydd.



Cynhaliwyd Cynhadledd Blynyddol Sefydliad y Merched Cymru yn Galeri Caernarfon ddydd Mercher, Mawrth 22 ain. Mae paratodau ar droed i drefnu stondin

y Sefydliad yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn, Eifionydd ac Arfon.
Ein gwestai oedd Meinir Thomas o Llangefni. Mae Meinir yn chwarae pêl - droed i Amlwch ac yn chwarae hoci i dîm Meistri Cymru. Cafwyd sgwrs arbennig ac emosiynol ganddi yn sôn am sut y cychwynnodd y diddordeb o ddyddiau ysgol i'r lle mae hi wedi cyrraedd heddiw.
Yn ogystal â chwarae pêl - droed i Amlwch Meinir wedi cynrychioli Sir Fôn yng Ngemau yr Ynysoedd a hefyd chwarae hoci dros Gymru yn Ne Affrica.
Dangosodd nifer o'r medalau a thariannau a enillodd yn ystod ei gyrfa.
Sgwrs ysbrydoledig iawn - diolch Meinir!
Os hoggech glywed Meinir yn sgwrsio, mae hi newydd fod ar raglen Beti a'i phobl ar Radio Cymru – ewch i safle BBC iplayer.
'Rydym yn cyfarfod yn y festri yn Jerusalem ar y dydd lau cyntaf o bob mis am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.
Dyma lun Meinir efo rhai o 'r medalau y mae wedi'u hennill wrth chwarae pêl droed a hoci.

Y Gerlan

Caren Brown, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST. (01248 602509 / 07789 916166) carenelaine@hotmail.com
Linda Brown, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. (01248 601526)

Priodas

Llongyfarchiadau mawr iawn i Siwan Puw a James Gurd a briododd yn Henblas, Ynys Môn, ar y 21ain o Ebrill. Cafwyd penwythnos i'w gofio gyda gwasanaeth bendithio yng Nghapel Jerusalem ar y dydd Sul a Chôr y Penrhyn yn swyno'r gwahoddedigion oedd wedi teithio o bell i ddathlu'r digwyddiad arbennig. Mae Siwan yn ferch i Rhodri Puw o Pen y Bryn a Sian Owen (Ciltwillan). Mae'r teulu i gyd yn falch iawn o'r ddau ohonoch ac mae pawb yn dymuno pob hapusrwydd i chi i'r dyfodol. Mwynhewch y mis mêl yn America!

Croeso i'r Gerlan

Croeso mawr i Anna Jane a'i phartner Miles sydd wedi symud i Stryd Isaf. Er bod Anna wedi ei magu ym Mae Penrhyn, mae ei gwreiddiau'n ddwfn yn Nyffryn Ogwen gan fod ei theulu yn dod o Rachub. Mae'n ferch i Gisella Williams a fagwyd ym Maes Bleddyn, ac mae sawl un yn

cofio'i nain a'i thaid, sef Meirion a Bruna Williams. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn y Gerlan Anna a Miles.
Gwobrau Gwerin Cymru
Os ydych chi wedi bod yn dilyn cystadleuaeth Gwobrau Gwerin Cymru eleni, mae'n debyg y byddwch chi wedi clywed enw Patrick Rimes o Gwernydd sawl gwaith. Enillodd Vri, un o'r bandiau y mae'n rhan ohono, albwm gorau'r flwyddyn efo'r albwm "Islais a Genir".
Enillodd y band wobwr arall hefyd am y trac offerynnol gorau gyda'r gân "Yr Ehedydd".
Mae Patrick hefyd yn rhan o fand Calan a enillodd y wobwr am y Perfformiad Byw Gorau.
Cafodd Calan a Vri sawl enwebiad arall ar y noson hefyd ond cafodd Vri chware'n fyw yn y noson wobrwyo a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar yr 20fed o Ebrill.
Rydym mor falch ohonot a dy dalentau cerddorol di-ddiwedd Patrick!
Cyfarfod blynyddol Caban
Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Caban Gerlan nos Fawrth y 25ain o Ebrill. Braf oedd gweld ychydig o wynebau newydd yn dod i gefnogi eleni, gyda 5 aelod newydd i'r pwyllgor, a thri

ymddiriedolwr newydd.
'Roedd pawb yn awyddus i weld mwy o weithgareddau cymunedol yn digwydd yn y neuadd. Er mwyn symud ymlaen efo'r gwaith yma, mae'r pwyllgor yn bwriadu cynnal Paned a Sgwrs ar brynhawn Sul yn fuan. Bwriad y prynhawn fydd cael sgwrs efo pobl Gerlan am yr hyn yr hoffent hwy ei weld yn digwydd yn y neuadd, a gweld sut y gallwn ni gydweithio i gynnal rhai o'r digwyddiadau

yma. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r hyn sy'n digwydd, cysylltwch â Caren ar 07789916166 neu carenelaine@hotmail.com.
Yn y cyfamser, os hoffech chi ddefnyddio'r Caban ar gyfer unrhyw ddigwyddiad, yna mae'n bosibl ei logi am bris hynod o resymol o £10 am gyfarfod ac £20 os yn ddigwyddiad codi arian, cynnal gweithgaredd neu barti. Cysylltwch gyda'r manylion uchod.

46ed
SIOE AMAETHYDDOL
DYFFRYN OGWEN

DYDD SADWRN
3 MEHEFIN 2023
CAEAU RYGBI BETHESDA

ADRAN CARTREF
CEFFYLAU / DEFAID / CWN
MABOLGAMPAU
CERBYDAU AC OFFERYNAU HANESYDDOL
STONDINAU / ADLONIAINT
www.sioedyffrynogwen.co.uk



Y BRAIN COESGOCH

(ar yr Ysgolion Duon)

Daw newid yn y tywydd
Ar fynydd ymhen dim,
A'i gopa aiff o'r golwg
Dan amlwg gwmwl chwm.

Mae'r gwyn flacedi'n cuddio,
Ond yno dan y rhain
Ar hyd glogwyni llymion
Mae noethion nythod brain.

Beth tybed sy'n eu cynnal
A'u dal mewn lle mor llwm
Yn byw mewn ffasiwn lecyn
Fel hyn uwch llawr y cwm?

Mae natur yn beth rhyfedd,
Gorfoledd ddaw i ni
Fod adar mor unigryw
Yn byw o hyd mewn bri.

ADERYN DU

Erioed mae'n hoff o'r coedydd, ond eto
Daw atom yn ddedwydd;
At y naw y daw bob dydd
Y dawnus ar adenydd.

GWANWYN

Blodyn gwywedig ydoedd
Ar lawr y ddaear oer,
A thristwch oedd ei weled
Dan olau'r ddisglair loer.

Fel hyn y bu yn pydru
Yn swrth o awr i awr,
Mor farwaidd ei edrychiad
Yn gwyro tua'r llawr.

Ond heddiw yn odidog,
Yn lliwgar ac yn dlws,
Mae blodyn arall tebyg
I'w weld o ben y drws.

Dafydd Morris



Trafnidiaeth Gymunedol – Taith Biecs Wcraïn

Yn dilyn defnydd o'n Bws Trydan yn ddiweddar gweithiodd y Dyffryn Gwyrdd mewn partneriaeth eto efo elusen Poblíoból, Bangor a chyda Cyngor Dinas Bangor. Ar fore Sadwrn hyfryd ddiwedd Ebrill cafwyd taith gyda 12 o bobl ar feics trydan o'r Pier ym Mangor ar hyd Lon Las Ogwen. Gyda Tomas Huw yn arwain y daith cafwyd llond lle o hwyl a chwerthin ar y ffordd draw i Glwb Rygbi Bethesda. Cafwyd hoe fach yn y Clwb a lluniaeth ysgafn arbennig gan Wayne a'r criw. Ar ôl cael seibiant, mater bach oedd ail-afael yn y ceffylau haeam! Gyda'r haul yn tywynnu aed ar wib yn ôl i'r Pier gyda sawl un wedi gwneud ffrindiau newydd ac wedi cael blas ar feicio trydan. Diolch i Gyngor Dinas Bangor am eu cefnogaeth hael ac i Poblíoból am y trefniadau.

Hefyd, cofiwch, mae ein

ymgyngori cymunedol yn parhau ac 'rydym yn dal yn awyddus iawn i glywed barn darllenwyr y Llais- mae ein holiadur ar gael ar y we yn <https://forms.gle/UiYeupfkj1Qr3T1C9> neu fel copi caled yn swyddfa'r Dyffryn Gwyrdd.

Am fwy o fanylion cysylltwch â huw@ogwen.org 07874382114

Clwb Bwyd Dyffryn Ogwen

Mae'r sesiwn yma sy'n rhannu bwydydd 'Fareshare' bob p'nawn Gwener yn dal i fod yn boblogaidd gyda dros 60 o bobl bellach yn aelodau o'r Clwb. Am £4.50 mae aelodau'r Clwb yn cael pecyn o fwydydd da sy'n lleihau gwastraff, arbed arian a chreu cymuned werdd arall yn y Dyffryn. Cynhelir y Clwb o 4-5pm bob ddydd Gwener yn yr Hwb Cymunedol, 55 Styd Fawr Bethesda. Am fwy o fanylion cysylltwch â menna@ogwen.org 07561648824.



Gwirfoddoli
Bagiau Bioddiogelwch gan WaREN

'Rydym wedi derbyn bagiau Bioddiogelwch gan WaREN (Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru) i'w defnyddio ar gyfer ein sesiynau hel Jac y Neidiwr. Bydd y rhain yn ddefnyddiol iawn i ni yn ystod y sesiynau er mwyn atal lledaenu hadau y planhigyn a gofalu am ein cynefin. Mae Jac y Neidiwr yn blanhigyn ymledol sydd yn tyfu'n gyflym yn gynnar yn y tymor gan greu canopi trwchus clos sy'n cysgodi planhigion brodorol rhag goleuni'r haul. Mae'r twf cyflym hwn yn arwain at effeithiau ecolegol, cymdeithasol ac economaidd drwg, gan gynnwys dwyn cynefin a gostwng ei ansawdd a'i ddirywio.

Diolch yn fawr i WaREN am y rhodd i'r gymuned a'n gwirfoddolwyr. anna@ogwen.org 01248 602131



Cadwyn Ogwen

Diolch i bawb a ddaeth i'n marchnad cynhyrchwyr lleol ar 1af Mai. 'Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus iawn, a braf oeddgweld cynifer yn troi allan i gefnogi busnesau lleol. 'Rydym hefyd yn gyffrous i gyhoeddi ein



partneriaeth gyda Hwb Bwyd Dyffryn Nantlle - sy'n golygu bod hyd yn oed mwy o gynnyrch o ansawdd uchel ar gael i'n cwsmeriaid. Mewngofnodwch i www.cadwynogwen.cymru i weld beth sydd ar gael, a chofiwch osod eich archebion cyn hanner dydd ar ddydd Mawrth i'w danfon neu eu casglu ar ddydd Iau. Cysylltwch â cadwyn@ogwen.org

Gŵyl Gwenllïan

Bydd Gŵyl Gwenllïan - dathliad o ferched y Carneddau - yn cael ei chynnal mewn gwahanol leoliadau ym Methesda rhwng y 9fed a'r 11eg o Fehefin. Gwylch allan am bosteri a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol am restr lawn o ddigwyddiadau, gan gynnwys cerddoriaeth, teithiau cerdded, a gweithgareddau i deuluoedd sy'n dathlu ein treftadaeth a'n tirwedd anhygoel.

Gofod Gwned

Mae criw Gofod Gwnïo wedi bod yn mwynhau dysgu technegau newydd yn ddiweddar - gan brofi nad ydych byth yn rhy brofiadol i ddysgu triciau newydd! Gwylwch allan yn y Carnifal am glogyn y teulu brenhinol, a wnaed mewn partneriaeth rhwng pwyllgor y Carnifal a Gofod Gwnïo. Mae sesiynau gwnïo agored, rhad ac am ddim, bob dydd Mawrth o 5-7 yn Swyddfa Dyffryn Gwyrdd (27 Stryd Fawr,

Bethesda). Croeso cynnes i bawb. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Robyn: robyn@ogwen.org

Cyfaill Cymunedol

Pas Bws Bu Linda Brown, Cyfaill Cymunedol y Dyffryn Gwyrdd, yn brysur yn rhoi cymorth i rai o bensiynwyr ardal Dyffryn Ogwen i wneud ceisiadau am docyn bws (am ddim) i Drafnidiaeth Cymru. Byddai yn falch iawn o gynorthwyo unrhyw un sy'n cael trafferth gwneud cais am docyn bws. Mae Linda hefyd yn ymweld yn gyson â Chlwb y Dyffryn, sydd yn cael ei gynnal bob pythefnos yn Gorffwysfan ar Stryd Fawr, Bethesda. Ceir ymweliadau a sgysiau difyr gan siaradwyr gwadd. Mae croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb dod i'r Clwb - cyfle am baned a sgwrs a raffll! Mae croeso mawr hefyd i bawb ddod i'r Swper Chwarel ar nos Fercher yng Nghanolfan Cefnfaes. Cyfle i gael sgwrs a chymdeithasu - o 4 o'r gloch tan 5 o'r gloch, ac yna mae cinio blasus i'w gael am ddim (neu gallwch gyfrannu tuag at y cinio os y dymunwch) yn cael ei weini o 5 o'r gloch tan 6 o'r gloch. Os byddwch angen unrhyw gymorth cofiwch gysylltu â Linda drwy ebost cyfaill@ogwen.org neu 07492290041

Calendr Llais Ogwan 2024

Lluniau ar gyfer Calendr 2024 i mewn cyn 30 Mehefin 2023, os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu'r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Gyderau) yn cael ei ystyried.



Lluniau fformat tirlun, os gwelwch yn dda Cefiwch :

✂ nodi lle y cymerwyd y llun, rhoi teiti i'r llun, a cynnwys eich cyfeiriad a'ch enw Arfonwch eich llun(iau) trwy ebost at: calendr2024@outlook.com

Bydd y calendr ar werth ym mis Hydref – tybed fydd eich llun chi ynddo fo?

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON
CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

Yr Eglwys Unedig

Organydd ifanc

Yn ystod mis Ebrill cawsom y fraint o groesawu bachgen ifanc 15 oed i'r Capel i chwarae'r organ. Joshua Greenwell yw ei enw – wedi'i eni ym Mangor, ac wedi byw am y 6 mis cyntaf o'i fywyd yn Neiniolen, cyn symud i Barnard Castle, swydd Durham.

Aeth Walter, ein hysgrifennydd, i agor y Capel i Joshua, a chafodd ei syfrdanu gan ei dalent! Ac yntau ar fin sefyll ei arholiadau TGAU, mae Joshua'n gobeithio bod yn sgolor organ tra'n cwblhau ei arholiadau lefel A, ac yna mynd ymlaen i astudio cerddoriaeth a gwyddoniaeth yn Rhydychen neu Gaergrawnt. Gan ei fod eisoes yn organydd mewn sawl eglwys, ei nod yw bod yn Feistr Cerdd mewn cadeirlan - nod hawdd iawn iddo ei chyrraedd dybiwn ni.

Dymunwn bob llwyddiant i Joshua yn ei yrfa arfaethedig, ac 'rydym yn sicr bod dyfodol hynod o ddisglair iddo. Cofiwch yr enw: Joshua Greenwell!



Oedfa ar y Cyd

Ar fore'r Pasg, hyfryd oedd cael teithio i Gapel y Rhos, Llanrug, ar gyfer gwasanaeth undebol, pryd y gweinyddwyd y sacrament o Gymun gan ein Gweinidog, Y Parchedig Nerys Griffiths. Da oedd gweld cynifer o aelodau Jerusalem wedi dod i'r oedfa undebol gyntaf yma, ynghyd â chynrychiolaeth deilwng o eglwysi eraill yr ofalaeth. Diolch o galon am y croeso a gawsom. Bydd yr oedfa undebol, a'r Cymun nesaf, yn Y Cysegr, Bethel, fore Sul, Mai 21, am 10 o'r gloch. Cofiwch gysylltu â'r blaenoriaid os hoffech gael dod gyda ni.

Bendithio Priodas

Yn ystod mis Ebrill, daeth Siwan (Puw gynt) a James Gurd i'r Capel i gael bendithio eu priodas. 'Roedd hon yn oedfa hynod o hapus, gyda'r Parchedig Anna Jane Evans yn arwain, a Menai Williams wrth yr organ. Cafwyd eitemau amserol gan Gôr y Penrhyn, ac 'roedd y gwahoddedigion wedi gwirioni ar y datganiadau hyfryd a gafwyd, ynghyd â'r canu cynulleidfaol grymus. Dymunwn bob bendith i Siwan a James, a diolch iddynt am ddod i Jerusalem i atgyfnerthu eu haddewidion i'w gilydd.

Cyfarfod Sefydlu

Brynhawn Sadwrn, Ebrill 15fed, cynhaliwyd Gwasanaeth arbennig yn y Capel i sefydlu'r Parchedig Nerys Griffiths yn Weinidog ar Ofalaeth Seiont Ogwen, Sef yr Eglwys Unedig, Cysegr Bethel, Caeathro a Chapel y Rhos, Llanrug. Daeth cynulleidfa deilwng iawn i dystio i'r digwyddiad pwysig hwn, a chafwyd cyfraniadau gan nifer o weinidogion, gan gynnwys Y Parchedig Bryn Williams, Pwllheli, a draddododd bregeth hynod o rymus a pherthnasol. Diolch i Beti Rhys am ei gwaith clodwiw ar yr organ. Yn dilyn y gwasanaeth,



mwynhawyd lluniaeth hyfryd, wedi'i drefnu gan chwiorydd Jerusalem, a chafwyd cyfle i ddod i adnabod aelodau yr eglwysi eraill. Wedi cyfnod o ymron i ddeng mlynedd o fod heb weinidog, 'roedd hwn yn achlysur arbennig o hapus i ni i gyd – diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y diwrnod hanesyddol hwn, ac edrychwn ymlaen yn hollol ffyddiog i gael llawer blwyddyn o gydweithio â Nerys, a chyda'n gilydd, i gefnogi Achos Iesu Grist. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y diwrnod.



Bedydd

Brynhawn Mercher, Ebrill 26, gweinyddwyd sacrament bedydd Owain Jones, Rhiwlas, gan Y Parchedig Nerys Griffiths. Mae Owain yn ŵyr i Humphrey ac Eunice Jones, a dymunwn bob bendith iddo i'r dyfodol. Diolch iddo am ddewis Jerusalem fel capel i'w fedyddio, a hefyd am y rhodd a'r blodau a gyflwynwyd i ni.

Y Gymdeithas

Yng nghyfarfod mis Ebrill o'r Gymdeithas, cawsom gwmni diddan Mari Gwilym,

Caernarfon – noson hwyliog dros ben! Fore Sadwrn, Ebrill 30, cynhaliwyd bore coffi er budd y Gymdeithas. Gwnaed elw o £274.00, a dymunwn ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at y gweithgaredd.

Cofion

Anfown ein cofion cywiraf at y rhai sydd yn dioddef o anhwylder, neu'n fregus a chaeth i'w cartrefi y dyddiau hyn – 'rydym yn meddwl amdano.

Ymweliad Cymdeithas Teuluoedd Indiaidd Bangor

Eleni eto, cawsom y fraint o groesawu ein cyfeillion i ddathlu diwedd Gŵyl Eid yn y Ffestri Uchaf a'r Isaf. Deallwn iddynt gael diwrnod wrth eu bodd, a gobeithiwn y daw hyn yn draddodiad blynyddol. Hyfryd oedd clywed un o'r trefnyddion yn ffarwelio â ni gyda'r geiriau: "Yr un Duw, gydag enw gwahanol".

Gardd y Capel

Braf yw gweld yr ardd yn ffynnu eto eleni, ac mae'n diolch yn fawr i Emyr Roberts am dorri'r gwair, a chadw'r cyfan yn daclus. Hoffem weld pawb yn parchu'r hyn sydd yn cael ei wneud ynddi – ewch â'ch sbwriel adref, os gwelwch yn dda!



CHWILAIR

TALEITHIAU YR AMERICA



A	A	W	F	H	R	W	A	S	H	I	N	G	T	O	N	I	E	J	L
K	C	C	O	L	O	R	A	D	O	M	B	V	B	K	H	X	J	U	I
E	T	S	V	S	H	E	I	M	G	V	H	M	D	L	W	H	U	Z	M
N	X	E	V	A	D	D	N	A	P	A	U	Q	U	A	S	O	F	R	P
T	Y	Q	X	F	L	O	R	I	D	A	Z	G	R	H	H	C	U	M	W
U	N	O	Y	A	R	I	A	S	Z	U	T	F	D	O	X	U	P	W	R
C	H	C	Q	H	S	W	E	H	O	Y	E	I	E	M	G	E	O	M	H
K	E	P	T	T	C	B	B	C	U	U	J	P	P	A	L	T	M	I	V
Y	V	D	C	B	B	F	R	E	F	O	G	P	J	V	I	I	R	R	X
I	M	H	T	T	O	S	R	K	O	P	W	I	R	C	M	K	C	B	O
R	C	X	V	R	Y	A	H	S	T	M	R	S	E	F	Y	J	D	Z	H
B	C	W	O	S	W	C	R	A	I	X	A	S	N	S	I	L	X	J	J
M	B	W	T	A	E	X	M	A	D	K	X	I	A	K	A	F	U	P	C
Q	Y	O	L	I	L	F	M	E	S	R	Z	S	Q	N	R	O	C	T	D
G	W	E	S	L	Z	A	E	A	B	E	N	S	A	A	J	K	J	C	L
N	D	L	R	V	B	O	R	G	J	A	P	I	W	P	G	S	O	W	J
J	Q	U	L	A	F	B	S	V	K	T	D	M	X	E	U	G	H	S	L
Z	E	A	L	F	E	X	I	R	W	N	T	Z	H	K	V	A	G	B	N
K	A	A	D	N	S	I	A	K	I	O	G	D	H	B	S	I	U	R	O
X	A	G	X	R	A	E	E	K	K	D	A	N	T	O	G	W	B	M	B

Yn y Chwilair mis yma mae ENW DEUDDEG TALAITH YR UNOL DALEITHIAU AMERICA i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 26 Mai. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobwr.

O'r holl atebion a dderbyniais trwy'r post ar gyfer Chwilair mis Ebrill, dim ond un ddaru ddarganfod y deuddeg ateb cywir. Yn anffodus roedd pawb ond yr enillydd wedi darganfod Bas yn lle PERC (Perch). Gobeithio cewch well hwyl gyda chwilair Mai.

Dyma atebion chwilair Ebrill: Brythyll (Trout); Cathfor (Skate); Eog (Salmon); Gwnedyn (Sea Trout); Lledan (Plaice); Macrell (Mackrel); Morgi (Shark); Penfras (Cod); Penog (Herring); Perc (Perch); Torbwt (Turbot); Torgoch (Arctic Char).

Enillydd Ebrill oedd: Eirwen Owen, Erw Las, Bethesda.

YSGOL BODFEURIG

POBOL SY'N EIN HELPU

Fel rhan o'u thema 'Pobol sy'n ein helpu' cafodd dosbarth Idwal brynhawn gwerth chweil yn dysgu am waith Parameddygon gyda Sarah, sef mam un o blant y dosbarth. Daeth ag ambiwlans i'r ysgol, ac 'roedd cyfle i eistedd ynddi, gweld sut yr oedd yr offer yn gweithio, yn ogystal â chyfle i chwarae rôl! Diolch yn fawr i Sarah am roi o'i hamser prin i ni.



Technocamps

Mae gwaith cyfrifiadurol bob tro'n dal sylw plant yr ysgol, felly 'roedd pawb wrth eu bodd yn gweld Technocamps yn dychwelyd i'r ysgol i gynnal gweithdai. Tro blwyddyn 4, 5 a 6 oedd hi gyntaf i ymarfer eu sgiliau codio gyda'r rhaglen Scratch, cyn i flynyddoedd 2 a 3 gael cyfle i ddysgu rheoli'r Sphero. Cafodd pawb amser gwych yn dysgu sgiliau newydd.

Ymweliad y Welsh Whisperer

Braf oedd cael croesawu hen ffrind i'r ysgol atom, sef y Welsh Whisperer. Yn dilyn ymweliad yn gynharach yn y

flwyddyn i ysgrifennu, recordio a pherfformio cân arbennig gyda'r plant, fe ddaeth yn ôl i'n gweld eto. Y tro yma bwriad yr ymweliad oedd recordio podlediadau gyda phawb o flwyddyn 2 i flwyddyn 6. Cafodd pawb weld yr offer recordio arbennig cyn cael sgwrsio am bob math o bethau ar gyfer y podlediad. Mae pawb yn edrych ymlaen yn eiddgar at wrando arno!



Mynd am dro

Gydag ysgol wedi ei lleoli mewn lle mor hyfryd mae'n bwysig ein bod yn gwneud yn fawr o'n cynefin ac yn dysgu mwy amdano. Wrth i ddosbarth Idwal ddysgu am y gwanwyn cafwyd cyfle i fynd am dro o gwmpas yr ardal i edrych am arwyddion o'r gwanwyn. Cafodd pawb amser bendigedig yn yr haul yn dysgu am yr ardal.



ARCHARWYR

Pobl eraill sy'n helpu eraill yw archarwyr, a dyna syndod oedd dod i'r ysgol un diwrnod i weld llong gwlad o archarwyr yno! 'Roedd pawb yno - o Batman i Spiderman, o Luigi i Supergirl, a llong enfys o archarwyr lliwgar arall. Cafodd pawb ddiwrnod gwych yn cymryd rhan mewn cwrs rhwystrau a rhedeg ar ôl y gelyn!

Olwen Hills (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
Gwenda Davies, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

Pen-blwydd arbennig
Dathlodd Margaret Jones, Cae Drain, ei phenblwydd arbennig yn 80 oed ar ddiwedd Ebrill. Pob dymuniad da i ti Margaret gan dy holl deulu, ffrindiau, cymdogion a'r holl gynddisgyblion a roddaist ar ben eu ffordd yn y byd celfyddydol yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Dymunwn y gorau i ti yn y dyfodol, a phob iechyd i ti gario ymlaen gyda'th waith artistig.

Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Cafwyd noson ardderchog Nos Lun, Ebrill 3 yng nghyfarfod o'r gangen yn Ffestri Capel Shiloh Newydd yng nghwmni Bethan Catrin, Nant Yr Eira, Talycae. Mae Bethan yn athrawes Drama yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy, a bu'n son yn hwyliog a ffraeth am sut y mae'n mynd ati i gyflwyno Drama fel pwnc yn yr Ysgol Uwchradd. 'Roedd wedi paratoi nifer o ddeialogau difyr a gyflwynir i'r disgyblon, ac fe gafodd aelodau'r gangen gyfle i gyflwyno rhai o'r deialogau! Wel sôn am hwyl a chwerthin. Diolchwyd i Bethan gan y llywydd, Carol Jones, a Gwenda Davies ar ran y gynulleidfa. Bydd y cyfarfod nesa o'r gangen Nos Lun, Mai 8 pan roddwn groeso i Beca Roberts, Cae'r Wern, fydd yn dod draw i siarad am

Darlithio
Ar Ebrill 27, yn Neuadd bentref Talsarnau, ger Harlech, traddodwyd darlith a drefnwyd gan Gyfeillion Ellis Wynne ar y testun Gwyneth Vaughan, y nofelydd o Dalsarnau. Y darlithydd oedd Shan Robinson, Ffordd Tanrhiw, sydd yn gyfrifol am yr Archifau a Chasgliadau Arbennig ym Mhrifysgol Bangor. Ysgrifennodd Gwyneth Vaughan nifer o nofelau dros ganrif yn ôl ac yn eu plith 'roedd y nofel Plant y Gorthrwm. 'Roedd yn wraig ymhell o flaen ei hamser, a braf oedd cael y cyfle i wrando ar Shan, sydd wedi arbenigo yng ngwaith Merched o Sylwedd yng Nghymru, yn dod â hi i sylw y cyhoedd. Llongyfarchiadau Shan!

Capel Shiloh Newydd

Dyma'r oedfaon adros yr wythnosau nesaf am 5 o'r gloch:
Mai 21 – Alun Morton Thomas, Porthaethwy
Mai 28 – Jennie Hurd, Llanymynech
Mehefin 4 – Philip Barnett, Swydd Efrog
Mehefin 11 – Ellie Jones, Coed y Parc
Mehefin 18 – R.O.Jones, Gaerwen
Mehefin 25 – Trefniant Lleol

Drws Agored
Bob bore Gwener, rhwng 10 a 12 o'r gloch mae drws y capel ar agor i bawb hoffai droi i mewn am gwmni, paned a sgwrs. Mae nifer dda iawn o drigolion y pentre a thu hwnt yn dod yn eu tro, ac 'rydym yn falch iawn o groesawu pawb i'n plith. Braf iawn hefyd ydi cael croesawu rhai sy'n dysgu Cymraeg, a gallu rhoi cyfle iddynt sgwrsio gyda phawb o'u cwmpas.

Gwellhad
'Rydym yn cofio am rai o'n haelodau, ac eraill sy'n ymuno hefo ni yn yr oedfaon, nad yw eu hiechyd yn dda ar hyn o bryd. Anfonwn ein cofion at Mrs Noreen Jones, Bethesda, gan gofio hefyd am Wynne Roberts, Bryn Difyr sy'n parhau i fod yn Ysbyty Gwynedd. Da deall fod Paul, mab Wynne wedi dod draw o Seland Newydd i weld ei dad a gobeithiwn y bydd Wynne yn cryfhau yn fuan.

Cymanfa Ysgolion Sul
Dosbarth Bangor a Bethesda
(1906 – 2023)

OEDFA ARBENNIG
O DDIOLCH A GWERTHFAWROGIAD
WRTH DDOD Â'R GYMANFA
I BEN WEDI CYFNOD MAITH O 117 MLYNEDD

.....
Cynhelir yng
Nghapel Carmel, Llanllechid
Dydd Sul, 21 Mai 2023, am 5 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb i'r oedfa ac i'r baned
yn y Ffestri wedyn



MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk


UNIPART **CAR CARE CENTRE**


post@llaisogwan.com


Dilynwch Llais Ogwan ar
Trydar **@Llais_Ogwan**

Ffair Ffeirio
Dillad
Plaid Cymru

2- 4 o'r gloch
laf o Orffenaf
Neuadd Goffa
Mynydd
Llandygai



YSGOL TREGARTH

Eisteddfod

Llongyfarchiadau mawr i Judah Parry o ddosbarth Ffrydlas a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth unawd llinynnol gyda'r soddgrwth ac yng nghystadleuaeth unawd gitâr yn Eisteddfod Sir Gwynedd. Bydd Judah yn awr yn mynd ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri ym mis Mai. 'Rydym yn dymuno pob llwyddiant i ti Judah!



Gala Nofio

Braf oedd cael cystadleuaeth gala nofio dalgylch Bangor/Ogwen yn ôl ar ôl cyfnod hir. Profiad hollol newydd i'r mwyafrif o blant oedd cael cyfle i gystadlu yn erbyn unigolion eraill mewn rasys unigol a chyfnod newid. Llwyddodd plant ysgol Tregarth i orffen y diwrnod yn y 6ed safle allan o 12 ysgol ac 'roedd yr holl blant wedi mwynhau'r cyfle. Bu 19 o blant yn cymryd rhan i gyd a phob un wedi gwneud yn arbennig.



YMWELIAD LLEFRITH CYBI

Cafodd plant CA2 amser gwych yn ymweld â Llefrith Cybi fel sbardun ar gychwyn thema newydd. Ein thema newydd yw 'Ffermio'. Cawsom weld sut maent yn cynhyrchu ysgythaeth yn ogystal â chael blasu'r 4 blas rhagorol y maent yn ei gynnig ar y safle. 'Roedd pawb wedi mwynhau'r ymweliad ac wedi dysgu llawer am waith ar y fferm. Profiad hyfryd oedd cael cwrdd â'r anifeiliaid, ac wrth gwrs eistedd yn y tractor mawr coch! Diolch o galon i Lefrith Cybi am adael i ni ddod draw i ddysgu ac i flasgu eich ysgythaeth gwych!



RYGBI MERCHED


Cynhaliodd yr Urdd gystadleuaeth tag merched draw yng nglwb rygbi Caernarfon yn ystod yr hanner tymor yma. Bu dau dîm o Dregarth yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth. Cafodd y genethod (rhai am y tro cyntaf) gyfle i chwarae yn erbyn amryw o ysgolion mewn gemau cystadleuol. Llwyddodd tîm 1 i gyrraedd rownd yr wyth olaf, a thîm 2 i gyrraedd y rownd gynderfynol gan golli mewn gêm hynod o gystadleuol yn erbyn Ysgol Yr Hendre. 'Roedd pawb wedi cynrychioli'r ysgol yn wych drwy'r dydd ac wedi mwynhau'r profiad yn sicr.



Ymweliad Fferm y Foel

Thema bresennol y cyfnod sylfaen yw 'Ffermio,' a chafodd y disgyblion ddiwrnod ardderchog yn ddiweddar pan gafwyd cyfle i ymweld â Fferm y Foel. Cawsom amser gwych yn crwydro o amgylch y fferm ac yn gweld yr amrywiol anifeiliaid, cael trip ar y tractor ac wrth gwrs y daith yng nghefn y 'quad bike!' Profiad hyfryd oedd cael gweld yr wyn bach oedd ddim ond diwrnod oed a rhoi llefrith iddynt. Roedd pawb hefyd wedi mwynhau gweld y moch bach a'r geifr, cyfarfod y cwningod ac wrth gwrs cael amser i fwynhau'r ardal chwarae. Profiad gwych a sbardun da ar gychwyn thema ddiddorol.

CROESAIR



AR DRAWS

- 1 Byw yr un pryd a chyfnod (7)
- 5 Wyth ynghanol lli, dyna nifer go dda (5)
- 8 Syringa (5)
- 9 Dal pen rheswm (7)
- 10 Ysbyty ceir ! (7)
- 11 Cwmni teledu Cymreig (5)
- 12 Y sant yn llechu o'r golwg mewn dioddefaint a thrallod (6)
- 14 Cadw'n lân (6)
- 17 Caethder y frest a gaf o'm diffyg anadl (5)
- 19 'Ar Agor', ond nid bob amser (4,3)
- 22 Dychrynllud ac erchyll (7)
- 23 Efaill enwog sydd ddim yn lol i gyd KR (5)
- 24 Os ewch i ardd i weld planhigion, gwelwch rai iach fel hyn (5)
- 25 Ta, ta hen flwyddyn, helo blwyddyn newydd (7)

I LAWR

- 1 Mae Lewis Wyn yn y cwm yn ceisio datod rhaff (5)
- 2 Dwi angen talu'n ôl (7)
- 3 Un mawr Seisnig cymysg yw'r cyfansoddwr (5)
- 4 Efo duwies tŷ nain y mae'r hogyn (6)
- 5 Swnio fel aelod o'r corff yn pwyso gormod, ond rhy llym ydyw (7)
- 6 Siarad efo chi'ch hunan (5)
- 7 Pam y bydd heidio i Lundain ddydd Sadwrn ddechrau Mai, ond i Foduan ddydd Llun ddechrau Awst eleni (1,6)
- 12 Ffyrdd dyfrllyd (7)
- 13 Syr Bryn neu Bocelli, os na chanant efo'i gilydd (7)
- 15 Gwneud fy newis clir i ethol A.S. (7)
- 16 Dylanwadol a sylweddol, nid i'w anghofio (6)
- 18 Galwedigaeth (5)
- 20 Gorchwyl beunyddiol pluog y buarth fel rheol (5)
- 21 Mae'n 'ola' meddai Caradog am hon (2,3)

ATEBION CROESAIR EBRILL 2023

AR DRAWS 1 Diwyd, 4 Gwasg, 8 Hywel Dda, 9 Diogi, 10 Afrad, 11 Ymestyn, 12 Carreg Gwalch, 16 Anwadad, 18 India, 20 Gorau, 21 Oriolau, 22 Lleuad, 23 Ugain

I LAWR 1 Dyhead, 2 Wiwer, 3 Dyledwr, 4 Godre, 5 Apostol, 6 Gwion, 7 Cau Ysgolion, 13 Arwerthu, 14 Weithiau, 15 Da Duon, 16 Asgell, 17 Deued, 19 Dalfa

Un camgymeriad gafwyd y tro yma, sef 'amrwd' yn hytrach nag 'afrad' (10 Ar Draws).

Atebion erbyn 2ail Mehefin 2023 fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Mai', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

Llongyfarchiadau i'r canlynol a anfonodd atebion hollol gywir: Iona Williams, Llanddulas; Medi Michael, Bangor; Dulcie Roberts, Rosemary Williams, Elizabeth Buckley, Tregarth; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gaynor Elis-Williams, Gwen Evans, Rita Bullock, Doris Shaw, Bethesda; Gill King, Mynydd Llandygai; Wendy Eccles, Llanllechid; Dilys Wyn Griffith, Abergele; Huw a Gwenno, Gerlan; John R. Jones, Stella Dafis, Rachub; Judith Hughes, Llangoed; Dilys Parry, Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Barbara Jones, Talybont

Yr un sy'n derbyn y clod a'r wobr y mis yma yw Gwen Evans, 4 Ystad Coetmor, Bethesda, Gwynedd LL57 3DR

JOHN ROBERTS
Paentiwr
Papurwr
Teilsiw

Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Sefydlwyd 1969
m.hughes
a'i fab
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
garribryn@aol.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

 post@llaisogwan.com

Iaith Pesda

gan Mary Jones

Y peth cyntaf yr hoffwn ei wneud yn y golofn y mis yma ydyw diolch o galon i Glwb Hanes Rachub a Chaellwyngrudd am y croeso a gefais yng nghyfarfod mis Ebrill ac am noson ddifyr dros ben yn sgwrsio a chlywed cyfraniadau y byddaf yn eu rhannu efo chi drwy gyfrwng y golofn.

Mae enwau'n ymwneud â thân wedi cael eu trafod yn bur faith. Fe ddywedwn ni "lle tân" ac fe soniodd Gwen Ellis y byddai'r geiriau "lle tua'r tân" yn cael ei ddefnyddio ym Mhorthmadog. Mi glywais wedyn ei fod yn cael ei ddefnyddio ym Nyffryn Ogwen hefyd, pan fyddai gwraig y tŷ yn dweud "Mi fydd rhaid imi llnau'r lle tua'r tân." gan olygu rhwng y grât a'r ffendar. Y ffendar wrth gwrs oedd yr enw a roddwyd i'r ffrâm fetel o flaen y lle tân i rwystro marwor neu ludw rhag mynd ar lawr yr ystafell.

A dyma i chi rywfaint o eiriau ac ymadroddion: 'cynhesu at berson' 'ail danio fflam' 'cynnau tân ar hen aelwyd' 'tân yn ei fol' 'ar dân dros achos'.

Poethwal Mae'r gair wedi codi ei ben o'r blaen wrth drafod moirio a gwneud tân i ferwi tecell. Soniodd Lynda Pritchard am yr arferiad o hel poethwal. Mae ffermwyr yn llosgi eithin ar lethrau'r mynyddoedd ddechrau'r flwyddyn er mwyn cadw'r llwyni eithin rhag lledaenu a chyfyngu ar borfa'r defaid. Byddai bobl yr ardal yn mynd i hel bonion a changhennau fyddai wedi llosgi a duo er mwyn eu defnyddio i gynnu tân yn eu cartrefi. Byddent yn eu cario adref mewn sachau. Byddai'r merched yn clymu darn o linyr wrth geg y sach a'i roi mewn rhwymyn o gwmpas y pen ar draws y talcen er mwyn ei gwneud yn haws i gario'r llwyth ar eu cefnau.

Myrrath Mi soniais am y gair yn rhifyn Ebrill. Daw'r gair o 'ymyrraeth' a 'myrrath' ydi busnesa a mynd ar draws bwriadau a

chynlluniau rhywun arall, hynny ydi drysu pethau heb fod angen o gwbl, a hynny'n fwrriadol weithiau – o ran diawledigrwydd.

Cacan cefn sofffa Dyma un dda a glywais yn y clwb hanes. Pan fyddai sbarion o does ar ôl wedi i chi fod yn gwneud cacen yna byddai'n rhaid ei ffurfio'n grwn, rhoi jam neu unrhyw beth i'w lenwi a'i blygu a'i selio, ac wrth gwrs byddai'n edrych fel cefn sofffa.

Sbensh Ein henw ni am dwll dan grisiau – lle hwylus i gadw pob math o bethau'n ymwneud â chadw tŷ. Daw'r gair o'r Saesneg 'spence' a'i ystyr yn wreiddiol oedd pantri neu storfa.

Sbio Dyma'r gair a ddefnyddiwn yn aml am 'edrych' – "Sbio lle ti'n mynd, da til!" A 'sbinglas' meddem am 'binoculars' neu 'field glasses'. Daw'r gair 'sbinglas' o 'spying glasses'.

Meddwi Dro'n ôl yn y golofn roedd sôn am y gair 'potio' am yfed y ddiod feddwol. Geiriau eraill ydy 'diota' a 'llymeitian'. Mae gennym ni lwyth o eiriau ac ymadroddion am or-yfed, fel: 'yn chwil gaib'; 'yn geiban'; 'wedi meddwi'n dwll'; 'yfed ei hun yn slwts'; 'meddwi'n rhacs'; 'yn feddw gocls'; 'wedi cael llond y caets bara'; 'wedi cael llond crats'; 'wedi cael gormod'; 'wedi ei chael hi'; 'wedi'i dal hi'; 'yn chwil gachu'; 'yn chwil ulw'; 'yn chwildrins'.

Fe welwch y gair ulw uchod. Hoffwn drafod mwy arno y mis nesaf.

I orffen dyma bennill bach a glywais yn ddiweddar

Waeth i chi heb na chwip na chwêl, Churwch chi byth 'mo hogia Braichmêl. Waeth i chi heb na chwip na chwain Churwch chi byth 'mo hogia Bantrein. (chwêl – gair gwneud i odli tybed?)

Croeso i chi anfon sylwadau a chyfraniadau at Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN, 07443047642 maryeds@hotmail.co.uk

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

SIOP OGWEN

yn cynnig gwasanaeth

CLIC A CHASGLU


Llawer o Nwyddau Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd

Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob
achlysur. Cysylltwch â'r siop ar
yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i
wneud trefniadau casglu a thalu

CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL



HYWEL WILLIAMS

AELOD SENEDDOL DROS ARFON



CYSYLLTWCH:

01286 672076

70 Stryd Fawr, Bangor

hywel.williams.mp@parliament.uk



YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

Ogwen

Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation

Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn,
cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein

07743373895 Ogowen.Physical.Rehab@gmail.com



Bowlïo Mae'r tymor bowlïo wedi dechrau o ddifrif ers canol mis Ebrill, ac mae pedwar tîm Clwb Bowlïo Bethesda yn hapus efo'u perfformiadau hyd yn hyn: Tîm Cyntaf (Capten: Siôn Guto Roberts) [Dosbarth B Cynghrair Arfordir Gogledd Cymru]: yn y 4ydd safle wedi ennill i gêm a cholli 2 gêm.	Tîm Henoed (Capten: Maldwyn Pritchard) [Dosbarth B Cynghrair Henoed Gwynedd]: yn y 3ydd safle gyda 2 fuddugoliaeth ac 1 golled. Tîm Cynghrair Bangor a'r Cylch (Capten: Brynmor Jones): yn y 3ydd safle wedi ennill 2 gêm a cholli 1 gêm. Tîm Cynghrair Môn/Bangor (Capten: Callum Sorfleet): ar y brîg wedi ennill 4 gêm allan o 4.
--	---



TRAWIADOL A CHYNALIADWY

**GWERTHFAWROGWCH NATUR HARDDWCH
GYDA THIRLUNIO CALED WELSH SLATE**

Crëwyd Llechi Cymreig dros filiynau o flynyddoedd, gan esblygu'n ddeunydd dramatig, hardd ac unigryw a ddefnyddir gan benseiri, dylunwyr a pherchnogion tai.

 01248 600656

 enquiries@welshslate.com

 welshslate.com

**LLWYBRAU ▲ WALIAU ▲ COPINAU ▲ CERRIG NODWEDD
MONOLITHAU ▲ CERRIG MÂN ADDURNIADOL**



Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen  Plaid Cymru



Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237

Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456

Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092

Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru • 07765 400140

Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

